



**Cais gan Mona Offshore Wind Limited ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona
Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ1)
Cyhoeddwyd ar 13 Medi 2024**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ1. Os bydd angen, mae amserlen yr Archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rownd ychwanegol o gwestiynau ysgrifenedig maes o law. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rownd ychwanegol o gwestiynau fel ExQ2.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 7 Mehefin 2024. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisiâu perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi at ba Barti â Buddiant (IP) ac unigolyn arall y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, naill ai trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda rhif 1 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ1) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar ansawdd aer fel Q1.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y Tîm Achos: cysylltwch@monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk a nodwch Fferm Wynt Alltraeth Mona yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: Dydd Llun 30 Medi 2024.

Talfyriadau a ddefnyddir:

AEol	Effaith Niweidiol ar Gyfanrwydd	NATS	Gwasanaethau Traffig Awyr Cenedlaethol
AIL	Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin	NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
AHNE	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol	CNC (C)	Cyfoeth Naturiol Cymru (Cynghori)
AyM	Awel y Môr	CNC (TTM)	Cyfoeth Naturiol Cymru (Tîm Trwyddedu Morol)
BoR	Llyfr Cyfeirio	NWWT	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
CA	Caffael Gorfodol	NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
CCBC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	OCoCP	Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol
CEA	Asesiad o Effeithiau Cronnol	OCMS	Datganiad Dull Adeiladu Amlinellol
CO₂	Carbon Deuocsid	ODMP	Cynllun Rheoli Llwych Amlinellol
CRDV	Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy	OSEP	Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol
CSIP	Manyleb Ceblau a Chynllun Gosod	OWF	Fferm Wynt Alltraeth
dDCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	ONVMP	Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Amlinellol
DCC	Cyngor Sir Ddinbych	OLEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol
DCLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol	OSMP	Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu	PA2008	Deddf Cynllunio 2008
DML	Trwydded Forol Dybiedig	PPW	Polisi Cynllunio Cymru
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	PRoW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
EM	Memorandwm Esboniadol	PSR	Radar Prif Oruchwyliaeth
EMF	Meysydd Electromagnetig	R	Gofyniad
EMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol	RR	Sylw Perthnasol
ENP	Parc Cenedlaethol Eryri	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
ES	Datganiad Amgylcheddol	ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
ExA	Awdurdod Archwilio	Sch	Atodlen
FCA	Asesiad Canlyniadau Llifogydd	SGLP	Cynlluniau Tir Categori Arbennig
		SLVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Morlun a'r Dirwedd a'r Effaith Weledol



GCN	Madfallod Dŵr Cribog	SMZ	Parth Lliniaru Cregyn Bylchog
GW	Gigawatiau	SoCG	Datganiadau(au) Tir Cyffredin
HGV	Cerbyd Nwyddau Trwm	SoS	Ysgrifennydd Gwladol
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	SoR	Datganiad o'r Rhesymau
IoA	Ynys Môn	AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
IoACC	Cyngor Sir Ynys Môn	tCO_{2e}	Tunelli CO ₂ cyfwerth
IoANL	Tirwedd Genedlaethol Ynys Môn	TP	Meddiant Dros Dro
IoMG	Llywodraeth Ynys Manaw	UXO	Ordnans Heb Ffrwydro
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur	VP	Golygfan
km	cilometrau	WR	Sylw Ysgrifenedig
LIR	Adroddiad ar yr Effaith Leol		
LSE	Effaith Arwyddocaol Debygol		
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol		
LVIA	Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol		
m	metrau		
MCA	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau		
MDS	Senario Dylunio Mwyaf		
MHWS	Penllanw Cymedrig y Gorllanw		
MMP	Cynllun Rheoli Deunyddiau		
MNEF	Fforwm Ymgysylltu Mordwyo		

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN010137/EN010137-000519-Mona%20Offshore%20Wind%20farm%20-%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf>

Bydd Llyfrgell yr Archwiliad yn cael ei diweddarw wrth i'r archwiliad fynd rhagddo.



Mynegai

1.0	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol.....	5
1.1	Ansawdd Aer ac Iechyd Dynol	6
1.2	Adeiladu	8
1.3	Buddiannau Amddiffyn a Hedfanaeth Sifil a Milwrol.....	10
1.4	Y Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	12
1.5	Pysgodfeydd Masnachol, Pysgod a Physgod Cregyn	13
1.6	Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP).....	14
1.7	Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO).....	21
1.8	Perygl Llifogydd a'r Amgylchedd Dŵr.....	22
1.9	Daeareg a Chyflwr y Tir.....	23
1.10	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	23
1.11	Yr Amgylchedd Hanesyddol.....	28
1.12	Defnydd Tir.....	28
1.13	Tirwedd a Gweledol a Dylunio Da.....	30
1.14	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Newid Arfordirol	33
1.15	Mordwyo a Morgludiant	35
1.16	Sŵn a Dirgryniad.....	39
1.17	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol Alltraeth	40
1.18	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir	44
1.19	Seilwaith a Gweithgareddau Alltraeth Eraill	49
1.20	Y Morlun ac Adnoddau Gweledol	52
1.21	Materion economaidd-gymdeithasol	56
1.22	Traffig a Thrafnidiaeth	58

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
1.0	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol	
	Yr Ymgeisydd IGP Solar 21 Limited	<p>Effeithiau Cronnol</p> <p>Mae [AS-23] gan IGP Solar 21 Limited yn cyfeirio at brosiect arfaethedig i adeiladu cyfleuster batris storio ar dir ym Mhentre Mawr a fyddai'n gorgyffwrdd â Gwaith Rhif 25 a 26 ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona.</p> <p>Yr Ymgeisydd: A fydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei gynnwys yn y CEA?</p> <p>IGP Solar 21 Limited: Pa fanylion ydych chi'n gallu eu cyflwyno, gan gynnwys amserlenni disgwylidig, i'r Archwiliad?</p>
Q1.0.1	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau cronol</p> <p>Yn [REP1-011] (Tabl 1.17), mae'n datgan bod adolygiad o ddeunydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynglŷn â ffermydd gwynt alltraeth arfaethedig yng ngorllewin Môr Iwerddon yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, yng ngoleuni cyflwyniadau gan Gyngor Sir Meath [OD-021].</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryd bydd yr adolygiad hwn yn cael ei gwblhau? • Cofnodwch unrhyw newidiadau mewn fersiwn wedi'i diweddarau o [APP-084].
Q1.0.2	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau cronol</p> <p>Er bod yr ExA yn nodi bod Matrics Sgrinio Effeithiau Cronnol wedi'i ddarparu, byddai'n gynorthwyol pe byddai tabl sy'n cyflwyno asesiad o effeithiau cronol yn cael ei ddarparu, gan gynnwys effeithiau arwyddocaol tebygol y Datblygiad Arfaethedig gyda datblygiadau 3^{ydd} parti. Byddai'r ExA yn cyfeirio'r Ymgeisydd at [APP-177] o Brosiect Dal a Storio Carbon Drax fel enghraifft.</p>
Q1.0.3	Yr Ymgeisydd CNC (C)	SoCG CNC (Alltraeth)

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Mae Tabl 1.4 [REP1-022] yn dangos bod y SoCG sy'n mynd rhagddo gyda CNC (C) o ran materion alltraeth yn ymdrin ag 11 o bynciau. Fodd bynnag, mae REP1-025 yn ymdrin â 7 yn unig o'r pynciau hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> A all yr Ymgeisydd a CNC gadarnhau p'un a fwriedir i bynciau pysgodfeydd masnachol, morgludiant a mordwyo, archaeoleg forol a defnyddwyr eraill y môr gael eu cynnwys mewn unrhyw SoCG CNC ai peidio?
Q1.04	Yr Ymgeisydd	<p>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru</p> <p>A all yr Ymgeisydd grynhai sut mae'n bodloni nod polisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru o ran sŵn tanddwr (ENV_05) i fonitro a chasglu tystiolaeth i wella dealltwriaeth o feysydd pryder fel drilio a gosod seilbyst, ac arolygon seismig gan gynnwys defnyddio sonar.</p>
Q1.05	Yr Ymgeisydd	<p>Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru</p> <p>A all yr Ymgeisydd grynhai sut mae'n bodloni nod polisi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod elfennau biolegol a daearegol ecosystemau'n cael eu cynnal, eu hadfer lle y bo angen a'u gwella lle y bo'n bosibl, i gynyddu cadernid ecosystemau morol a'r buddion maen nhw'n eu darparu.</p>
Q1.06	Yr Ymgeisydd DCC, CCBC, CNC(C)	<p>Cydsyniadau neu Drwyddedau Eraill sy'n Ofynnol [APP-085]</p> <p>A all y partïon unigol roi diweddariad ar gynnydd y trwyddedau a'r cydsyniadau a chynghori a oes unrhyw rai sy'n codi pryderon a allai arwain at wrthod.</p>
1.1	Ansawdd Aer ac Iechyd Dynol	
Q1.1.1	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	<p>Iechyd a Diogelwch</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd i sylwadau yn eich RR [RR-025] yn ([PDA-008], tudalen 173). A yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?</p>
Q1.1.2	CCBC	Ymbelydredd gwres

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Yn [PDA-008], tudalen 24, ymdriniodd yr Ymgeisydd â'ch angen canfyddedig am asesu effeithiau posibl ymbelydredd gwres ar iechyd dynol [RR-009]. Yng ngoleuni hynny, a'r WR gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [REP1-058], a yw hynny'n newid eich safbwynt?
Q1.1.3	Ysgutorion y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig	Meysydd Electromagnetig (EMFau) Ymdriniodd yr Ymgeisydd â sylwadau yn eich RR [RR-082] ynglŷn ag effaith bosibl EMFau yn [PDA-008], tudalen 173. Yn Adran 4.2 yr ES Pennod 4 (Cyfrol 4) [APP-078], nododd fod effaith bosibl y cynnig ar iechyd dynol wedi cael ei hasesu yn erbyn y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi cyffredinol ac ymdriniodd yn benodol â'r canfyddiad o risg ar gyfer EMF (ymbelydredd), yn unigol ac ar y cyd, yn Adrannau 4.8.8 a 4.10.8, yn y drefn honno. Yng ngoleuni hynny, a'r WR gan Iechyd Cyhoeddus Cymru [REP1-058], a yw hynny'n mynd i'r afael â'ch pryderon? Os na, esboniwch pam.
Q1.1.4	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Safbwynt presennol Yn eich WR [REP1-058], rydych yn cyfeirio at ' <i>bwyntiau a godwyd yn ein hymateb blaenorol</i> '. Fodd bynnag, mae eich RR [RR-067] yn cyfeirio at gofrestru fel IP a chymryd rhan ym mhroses yr Archwiliad yn unig. Nodwch b'un a oes gennych unrhyw wrthwynebiad i'r Datblygiad Arfaethedig neu bryderon ynglŷn ag ef ar hyn o bryd ar sail y dystiolaeth hyd yma, yn enwedig yr ES Pennod 4 (Cyfrol 4) [APP-078]?
Q1.1.5	CCBC	Cwmpas pryderon Yn [PDA-008], tudalen 23, ymdriniodd yr Ymgeisydd â'ch angen canfyddedig am fesurau lliniaru ar gyfer llwch. Gan fod yr unig gyfeiriad at llwch yn eich LIR [REP1-049] yn ymwneud ag effeithiau adeiladu ar lystyfiant, a wnewch chi gynghori a ystyrir bod mesurau lliniaru arfaethedig yr Ymgeisydd ynglŷn â llwch yn gyffredinol yn dderbyniol?
Q1.1.6	Michael a Sally Leach, Mr a Mrs JT Owen	Llwch Yn [PDA-008], tudalennau 242 a 252, amlygodd yr Ymgeisydd ei gynigion ar gyfer lliniaru effeithiau posibl llwch a chyflwynodd ODMP wedi'i ddiweddarau erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-042]. Os ydych o'r farn bod y cynigion hyn yn annigonol, a wnewch chi gynghori sut mae angen eu hategu?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.1.7	CCBC	Goleuadau Beth ydych chi'n ei olygu gan 'asesiad cymesur o effeithiau goleuadau' [REP1-049]; pa safleoedd, ffactorau ac ati y dylai'r Ymgeisydd eu hystyried?
1.2 Adeiladu		
Q1.2.1	Yr Ymgeisydd	Cynllun Rheoli Deunyddiau Mae'r ES Pennod 3 (Cyfrol 1) paragraff 3.12.1.3 [APP-050] yn datgan yn ogystal â Chynllun Rheoli Gwastraff Safle (SWMP), y byddai MMP yn cael ei baratoi a'i gytuno cyn i gloddwaith ddechrau. Yn y SWMP Amlinellol [APP-221], paragraff 1.4.2.12, crybwyllir paratoi'r MMP ar ôl cael caniatâd. A wnewch chi egluro: <ul style="list-style-type: none">• pryd y byddai'n cael ei baratoi a'i gytuno;• p'un a fwriedir dibynnu arno fel mesur lliniaru; ac• os felly, sut byddai'n cael ei sicrhau?
Q1.2.2	Michael a Sally Leach, Mr a Mrs JT Owen	Storio a Rheoli Pridd Yn [PDA-008], tudalennau 242 a 255, amlygodd yr Ymgeisydd fesurau arfaethedig sy'n gysylltiedig â storio a rheoli pridd a chyflwynodd Gynllun Rheoli Pridd Amlinellol wedi'i ddiweddarau erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-054]. Os ydych o'r farn bod y cynigion hyn yn annigonol, a wnewch chi gynghori sut mae angen eu hategu?
Q1.2.3	Michael a Sally Leach	Effeithiau adeiladu Yn [REP2-078], REP1-087.3, 4, 5 a 6, ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniadau ynglŷn â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar gyfleustodau a chyfryngau gwasanaeth preifat presennol eich eiddo; a• diffyg manylion canfyddedig yn y dogfennau a gyflwynwyd ac mewn perthynas ag elfennau penodedig o'r gwaith arfaethedig. Gan roi sail resymegol i'ch casgliad, a yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q124	Mr a Mrs JT Owen	Effeithiau adeiladu Yn [REP2-078], REP1-088.3 a 4, ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniadau ynglŷn â'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">• effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar gyfleustodau a chyfryngau gwasanaeth preifat presennol eich eiddo; a• diffyg manylion canfyddedig yn y dogfennau a gyflwynwyd ac mewn perthynas ag elfennau penodedig o'r gwaith arfaethedig. Gan roi sail resymegol i'ch casgliad, a yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?
Q125	Yr Ymgeisydd	OCoCP [REP2-038] A allwch chi gynghori pam y defnyddiwyd "cyd-fynd yn gyffredinol" yn hytrach nag 'yn unol â' ym mharagraffau 1.3.1.4, 1.5.1.3 a 1.7.6.1 yr OCoCP mewn perthynas â'r CoCP terfynol a'r OCMS terfynol.
Q126	Yr Ymgeisydd	OCoCP [REP2-038] Mae Adran 1.7.4 yn cyfeirio at Brif Gontractwr ac y byddai ei System Rheoli Amgylcheddol yn darparu'r broses ac yn amlinellu a monitro cydymffurfedd ac effeithiolrwydd y mesurau a gynhwysir yn y CoCP. Mae paragraff 1.7.5.2 yn nodi y byddai mesurau rheoli'n cael eu diweddarau lle y bo'r angen mewn trafodaeth â'r awdurdod cynllunio perthnasol. A wnewch chi egluro pryd y cynhelir diweddariadau a ph'un a fyddai unrhyw gynlluniau rheoli Prif Gontractwr yn cael eu diweddarau hefyd a'u rhoi i'r awdurdod cynllunio perthnasol.
Q127	Yr Ymgeisydd	OCoCP [REP2-038] Mae paragraff 1.8.2.2 yn cyfeirio at weithgareddau a allai gael eu cynnal yn ystod y cyfnod paratoi. A all yr Ymgeisydd grynhoi'r canlynol: <ul style="list-style-type: none">i) y tasgau a'r offer nodweddiadol a fyddai'n ymwneud â chynnal a chadw'r safle; aii) chynghori ar y lefelau sŵn (dBA) sy'n gysylltiedig â gwirio diogelwch offer a pheiriannau.
Q128		OCoCP [REP2-038]

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Yr Ymgeisydd	<p>O ran oriau gwaith estynedig (paragraff 1.8.2.4), cyfeirir at weithgareddau y mae amser yn allweddol iddynt. Gan fod y gweithgareddau hyn yn rhai lefel uchel ac yn brin o fanylion, a all yr Ymgeisydd esbonio:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) sut mae gweithgareddau lefel uchel y mae amser yn allweddol iddynt yn cael eu datblygu'n fanwl a'u rhannu gyda'r awdurdod cynllunio perthnasol a'r gymuned leol; ii) pam mae rhybudd o flaen llaw i'r awdurdod cynllunio perthnasol (ar gyfer gweithgareddau wrth yr is-orsaf ar y tir) wedi'i gyfyngu i 48 awr o leiaf; a iii) beth a olygir gan raglen o weithrediadau y mae diogelwch yn allweddol iddynt.
Q12.9	Yr Ymgeisydd	<p>OCoCP [REP2-038]</p> <p>Mae paragraff 1.8.2.5 yn datgan y gallai gwaith brys gael ei gynnal hefyd y tu allan i'r oriau gwaith craidd. A all yr Ymgeisydd gadarnhau ai gwaith brys yw hwnnw sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau ar gyfer storio a thrin llygryddion posibl yn ystod adeiladu, a rheoli gollyngiadau, neu a yw gweithrediadau y mae diogelwch yn allweddol iddynt yn waith brys.</p>
Q12.10	Yr Ymgeisydd	<p>OOCMS [REP2-068]</p> <p>A allwch chi ddarparu cynllun gosodiad drafft gyda nodiadau o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) y prif gyfodeilad adeiladu dros dro; a ii) chyfodeilad adeiladu dros dro yr is-orsaf ar y tir.
1.3	Buddiannau Amddiffyn a Hedfanaeth Sifil a Milwrol	
Q13.1	Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau ar radar rheoli traffig awyr yn BAE Warton</p> <p>Mae'r ExA yn nodi bod y partïon yn ymgysylltu'n weithredol i gytuno ar ddatrysiaid lliniaru ar gyfer effeithiau posibl ar radar rheoli traffig awyr yn BAE Warton [REP2-089]. O ystyried bod cytundeb â nifer o Ffermydd Gwynt Alltraeth eraill gweithredol ac arfaethedig yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny, mae'r ExA yn gofyn i unrhyw gynnydd tuag at gytundeb gyda'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn yn cael ei adrodd i'r Archwiliad ar y cyfle cynharaf.</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.32	Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn	Rhwyrstr Ffisegol i Awyrennau A all y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn ddarparu cynllun sy'n dangos hyd a lled Ardal Hedfan Isel 17, fel y cyfeiriwyd ati yn [REP1-054]?
Q1.33	Y Sefydliad Seilwaith Amddiffyn	Cynllun goleuadau hedfanaeth Yn dilyn cyflwyniadau yn [REP1-054] a [REP2-089], a yw'r Sefydliad Seilwaith Amddiffyn yn cytuno â geiriad Gofyniad 3 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [REP2-004], Atodlen 2 ('Diogelwch hedfanaeth') neu a geisir unrhyw ddiwygiadau i'r drafft?
Q1.34	Yr Ymgeisydd	Radar Prif Oruchwyliaeth Maes Awyr Ronaldsway Mae'r ExA yn nodi cyflwyniadau [REP1-010] bod Maes Awyr Ronaldsway yn ymgymryd â strategaeth oruchwyliaeth ehangach ar hyn o bryd yng ngoleuni cynigion ym Môr Iwerddon ac y gallai fod dibyniaeth rhwng datrysiadau lliniaru posibl ar gyfer Radar Prif Oruchwyliaeth (PSR) Maes Awyr Ronaldsway a thrafodaethau sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gyda NATS (En Route) plc. Yng ngoleuni'r canfyddiadau yn [APP-075], mae'r ExA yn annog yr Ymgeisydd i wneud pob ymdrech gyda Maes Awyr Ronaldsway i egluro a chadarnhau'r safbwynt ynglŷn â lliniaru erbyn Dyddiad Cau 7 ar yr hwyraf er mwyn i'r ExA allu adrodd yn llawn ar y mater. Dylai hyn gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• ffurf y mesurau lliniaru;• sut byddent yn cael eu gweithredu a chan bwy; a• sut byddent yn cael eu sicrhau, gan gynnwys y geiriad ar gyfer unrhyw Ofyniad DCO.
Q1.35	Yr Ymgeisydd	Radar Prif Oruchwyliaeth Maes Awyr Lerpwl Mae'r ExA yn nodi cyflwyniadau'r Ymgeisydd (a grynhowyd yn [REP1-010], ID 7b) nad yw Maes Awyr Lerpwl yn ymwneud yn weithredol â thrafodaethau ynglŷn ag ymyrraeth bosibl â PSR a mesurau lliniaru. Er hynny, mae [APP-075] yn nodi bod effaith niweidiol gymedrol mewn perthynas â PSR Maes Awyr Lerpwl, yn absenoldeb mesurau lliniaru ychwanegol, yn cynrychioli effaith arwyddocaol o ran EIA.

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Felly, mae'r ExA yn annog yr Ymgeisydd i wneud pob ymdrech gyda Maes Awyr Lerpwl i egluro a chadarnhau'r safbwynt ynglŷn â lliniaru erbyn Dyddiad Cau 7 ar yr hwyraf er mwyn i'r ExA allu adrodd yn llawn ar y mater. Dylai hyn gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ffurf y mesurau lliniaru; • sut byddent yn cael eu gweithredu a chan bwy; a • sut byddent yn cael eu sicrhau, gan gynnwys y geiriad ar gyfer unrhyw Ofyniad DCO.
Q1.3.6	Yr Ymgeisydd	<p>Radar Prif Oruchwyliaeth Maes Awyr Lerpwl</p> <p>Mae [REP1-010], ID 7b yn datgan “<i>byddai unrhyw fesurau lliniaru a sefydlir ar gyfer NATS yn berthnasol i Faes Awyr Lerpwl hefyd, o bosibl</i>”. A all yr Ymgeisydd roi diweddariad ynglŷn ag i ba raddau y byddai'r datrysiad lliniaru sy'n cael ei drafod gyda NATS ar hyn o bryd yn lliniaru effeithiau rhagfynedig ar PSR Maes Awyr Lerpwl?</p>
Q1.3.7	Mooir Vannin Offshore Wind Farm Limited (MVOWFL)	<p>Effeithiau cronol ar Radar Prif Oruchwyliaeth</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch Sylw Perthnasol yn [PDA-008], Tabl 2.45, ID RR-045.8.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan gyfeirio at [APP-075], a yw MVOWFL yn fodlon bod asesiad yr Ymgeisydd wedi asesu effeithiau posibl y prosiect, ar ei ben ei hun ac ar y cyd, ar PSR yn gywir? • A hoffai MVOWFL wneud unrhyw gyflwyniadau ychwanegol mewn perthynas â'r asesiad o ymyrraeth bosibl â PSR neu fesurau lliniaru?
<p>1.4 Y Newid yn yr Hinsawdd ac Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr</p>		
Q1.4.1	Yr Ymgeisydd	<p>Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr</p> <p>Yn [APP-076] adran 2.10.4, ystyrir bod effaith allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n deillio o weithgynhyrchu a gosod yr asedau cynhyrchu a throsglwyddo yn ystod adeiladu yn arwain at effaith niweidiol gymedrol, sy'n lleihau i effaith niweidiol fach ar ôl mesurau lliniaru eilaidd/ychwanegol.</p> <p>Dywedir bod yr Ymgeisydd wedi ymrwymo i archwilio opsiynau i leihau allyriadau cysylltiedig ag adeiladu, darperir enghreifftiau o fesurau posibl a dywedir y disgwylir i'r mesurau hynny gael eu cynnwys yn y cynlluniau rheoli terfynol perthnasol. Beth mae'r term 'disgwylir' yn ei olygu a sut gall yr</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		ExA fod yn hyderus bod y mesurau lliniaru ychwanegol wedi'u sicrhau ac y byddent yn arwain at yr effaith lai a ragfyneir?
Q1.4.2	Yr Ymgeisydd	<p>Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr</p> <p>Yn [APP-076] adran 2.10.8.2, dywedir bod yr allyriadau CO₂ a arbedir ar hyd oes Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona yn -129,466 tCO₂e o allyriadau wedi'u hosgoi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi roi sylwadau ar y posibilrwydd y byddai'r allyriadau adeiladau'n fwy na'r allyriadau gweithredol a arbedir pe byddai capasiti cynhyrchu gwirioneddol y tyrbinau gosodedig yn llai nag 1.5GW? • A ddylai'r asesiad gael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r ansicrwydd ynglŷn â'r union gapasiti cynhyrchu a'r dechnoleg sydd i'w defnyddio ar gyfer y tyrbinau?
1.5 Pysgodfeydd Masnachol, Pysgod a Physgod Cregyn		
Q1.5.1	Yr Ymgeisydd	<p>Ymateb yr Ymgeisydd i Sylw Ysgrifenedig [REP2-078]</p> <p>Mae ymateb yr Ymgeisydd i REP1-075.10 [REP2-078] yn datgan y bydd yn ymrwmo i gynnal Parth Lliniaru Cregyn Bylchog (SMZ) o 57 km² trwy gynnwys yr ymrwymiad hwn mewn diweddariad i Dabl 1.2 yr FLCF Amlinellol [APP-199] erbyn Dyddiad Cau 3. Gan fod yr ardal yn llai o lawer na'r hyn yr oedd Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, Scottish Whitefish Producers Association Ltd a West Coast Sea Products yn ei ddisgwyl, a all yr Ymgeisydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> grynhoi'r camau a gymerodd i werthuso meintiau llai a mwy a sut y dewiswyd ardal SMZ 57 km²; egluro a fyddai ôl troed amddiffyniad creigiau ar gyfer ceblau yn effeithio ar faint yr SMZ 57 km²; ac esbonio beth fyddai'r effeithiau ar y Datblygiad Arfaethedig pe byddai'n cynyddu maint yr SMZ 20-25%.
Q1.5.2	Yr Ymgeisydd	<p>Ymateb yr Ymgeisydd i Sylw Ysgrifenedig [REP2-078]</p> <p>Mae ymateb yr Ymgeisydd i sylwadau ysgrifenedig cyfeirnod REP1-081.4 [REP2-078] yn datgan bod yr SMZ yn rhychwantu oddeutu 37% o'r tiroedd cregyn bylchog sydd wedi'u lleoli o fewn Ardal Arâe Mona.</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Yn ei sylw ysgrifenedig, amlygodd West Coast Sea Products [REP1-081] y byddai'r effaith gronol gyffredinol gyda Fferm Wynt Alltraeth arfaethedig Morgan yn effeithio ar 53% o ddata 2023 cregyn y Frenhines.</p> <p>A allwch chi grynhoi eich safbwynt o ran:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) effeithiau colli refeniw posibl ar bysgodfeydd cregyn bylchog o gymharu â data 2023 cregyn y Frenhines, a ph'un a fyddai'n newid casgliad eich asesiad; ac ii) a ellid ychwanegu unrhyw fesurau lliniaru eraill at y Cynllun Cysylltu a Chydfodoli â Physgodfeydd Amlinellol.
Q1.5.3	Yr Ymgeisydd CNC(C) JNCC NWWT	<p>ES Pennod 3 (Cyfrol 2) Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn [APP-055]</p> <p>Nid yw'n ymddangos bod unrhyw wybodaeth am allyriadau sŵn tyrbinau gwynt nac allyriadau sŵn llongau yn ystod gweithredu yn adran 3.9.3. Mae tabl 3.6 yn datgan bod hyn wedi cael ei hepgor yn seiliedig ar wybodaeth sŵn penodol i safle, gan gynnwys modelu allyriadau sŵn o'r tyrbinau gwynt arfaethedig a llongau ac effeithiau ar dderbynyddion pysgod a physgod cregyn, fel y manylir yn adran 3.9.3.</p> <p>Nid oedd yr Arolygiaeth Gynllunio'n cytuno y gellir hepgor sŵn gweithredol yr OWF o'r Datganiad Amgylcheddol.</p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a nodir yn Nhabl 3.6 am allyriadau sŵn tyrbinau gwynt a llongau; ac</p> <p>A all y partïon unigol gynghori a oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â sŵn tanddwr posibl yn ystod y cam gweithredol yn effeithio ar dderbynyddion pysgod a physgod cregyn.</p>
Q1.5.4	Yr Ymgeisydd	<p>Monitro</p> <p>Mae NPS EN-3 yn mynnu bod Ymgeiswyr yn datblygu rhaglen monitro ecolegol i fonitro effeithiau yn ystod y camau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredol er mwyn amlygu'r effeithiau gwirioneddol a achosir gan y prosiect a'u cymharu â'r hyn a ragfyngwyd yn yr EIA/HRA. A all yr Ymgeisydd grynhoi sut mae wedi bodloni'r gofynion ar gyfer cregyn bylchog?</p>
<p>1.6 Caffael Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)</p>		

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Mae'r ExA yn bwriadu cynnal Gwrandawriad Caffael Gorfodol ar 17 a 18 Hydref 2024 lle bydd ganddo gwestiynau pellach.		
Q1.6.1	Yr Ymgeisydd	BoR A ydych chi'n fodlon bod y cyfeiriad a roddwyd yn y BoR [REP2-008] ar gyfer Hefin Williams [RR-026] yn gywir?
Q1.6.2	Hefin Williams	BoR A allwch chi gadarnhau bod gennych fuddiant cyfreithiol yn y lleiniau canlynol a ddangosir yn y BoR [REP2-008] a'r Cynllun Tir (Ar y Tir) [REP1-004]: 04-069, 04-070, 04-071, 04-072, 04-073, 04-074, 04-075, 04-076 a 04-077?
Q1.6.3	Hefin Williams	BoR A oes angen i'r BoR [REP2-008] gael ei newid i adlewyrchu'ch buddiant cyfreithiol mewn tir sy'n destun y Datblygiad Arfaethedig yn gywir? Os felly, sut?
Q1.6.4	Lois Williams	BoR A oes angen i'r BoR [REP2-008] gael ei newid i gynnwys tir o fewn Terfynau Gorchymyn y Datblygiad Arfaethedig, fel y dangosir ar y Cynllun Tir (Ar y Tir) [REP1-004] neu'r Cynllun Gwaith – Ar y Tir [AS-003], y mae gennych fuddiant cyfreithiol ynddo? Os felly, sut?
Q1.6.5	G Lloyd Evans a'i Feibion H L ac RJL Evans	BoR A yw'r fferm sy'n destun eich cyflwyniad ysgrifenedig [REP2-103] yn cynnwys tir yn y BoR [REP2-008] yn unig, ac a ddangosir ar y Cynllun Tir (Ar y Tir) [REP1-004], sydd wedi'i gofrestru i Robert John Lloyd Evans? Os na, rhestrwch y Rhifau Lleiniau sydd wedi'u cynnwys yn y daliad a/neu anodwch ddarn o'r Cynllun(iau) Tir perthnasol.
Q1.6.6	Unrhyw AP	BoR

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw anghywirdebau yn y BoR [REP2-008], y SoR [APP-029], y Cynllun Tir (Ar y Tir) [REP1-004], Cynllun Tir y Goron (Ar y Tir) [AS-006] neu'r Cynllun Tir Categori Arbennig [AS-007]? Os felly, nodwch beth ydynt a darparwch y manylion cywir.
Q1.6.7	Yr Ymgeisydd	<p>Unigolion Categori 3</p> <p>Yn Adran 11 b y BoR [REP2-008], rydych yn esbonio'r sail resymegol dros restru unigolion "Categori 3" yn Rhan 2 ohono. A allwch chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • naill ai esbonio neu gyfeirio at y fethodoleg a ddefnyddioch i amlygu'r cyfryw unigolion? ac • esbonio pam y cynhwyswyd perchnogion Tyddyn Meredydd, Cefn, Llanelwy a Chae Llwyd, Cefn, Llanelwy ond nid Pentre Meredydd, sydd wedi'i leoli rhwng y ddau?
Q1.6.8	Yr Ymgeisydd	<p>Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)</p> <p>Mae paragraffau 27 a 28 'Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau ynglŷn â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol', mis Medi 2013, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), yn datgan yr anogir ymgeiswyr i ystyried cynnig mynediad llawn at dechnegau ADR i'r rhai hynny sydd â phryderon ynglŷn â chaffael eu tir yn orfodol. A ydych chi wedi gwneud hynny neu ystyried modd arall o gynnwys y rhai hynny yr effeithir arnynt? Os felly, rhowch fanylion.</p>
Q1.6.9	Yr Ymgeisydd	<p>Dewisiadau Amgen</p> <p>Yng ngoleuni canllawiau'r DCLG, yn enwedig paragraff 8, a allwch chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gynghori sut gall yr Ysgrifennydd Gwladol fod yn sicr bod yr holl ddewisiadau amgen rhesymol yn lle CA (gan gynnwys addasiadau i'r cynllun) wedi cael eu harchwilio; ac • Amlinellu'n gryno, gan gyfeirio at ddogfennau, lle y bo'n briodol, sut yr aseswyd / cymharwyd y dewisiadau amgen yn lle'r bwriad i gaffael tir neu fuddiannau ym mhob achos.
Q1.6.10	CCBC DCC	<p>Hawliau tir</p> <p>Yn eich rôl fel yr awdurdod cynllunio lleol a'r awdurdod priffyrdd, a ydych chi'n ymwybodol o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol yn lle'r CA neu'r TP a geisir gan yr Ymgeisydd? • Unrhyw ardaloedd o dir neu hawliau y mae'r Ymgeisydd yn ceisio pwerau i'w caffael na fyddai'n angenrheidiol yn eich barn chi?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.6.11	Yr Ymgeisydd	<p>Meddiant dros dro</p> <p>Mae adran 1.10.1.19 y SoR [APP-029] yn dweud bod pwerau meddiant dros dro yn berthnasol i holl Dir y Gorchymyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae'r dDCO yn darparu ar gyfer hyn? • Mae'r Anodiad ar y Cynllun Tir (Ar y Tir) yn gyson â'r datganiad hwn ond yn ymddangos yn groes â Thabl 1 y Llyfr Cyfeirio [AS-015] lle na chrybwyllir meddiant / meddiannu dros dro mewn perthynas â'r rhesi sy'n ymwneud â thir wedi'u lliwio'n Binc, yn Las ac yn Wyrdd ar y Cynlluniau Tir. O ystyried bod y ddwy ddogfen i'w hardystio, trwy gyfrwng Atodlen 15 y dDCO [REP2-004], a allwch chi gysoni'r anghysondeb ymddangosiadol hwn?
Q1.6.12	Yr Ymgeisydd	<p>Eglurhad</p> <p>Yn y SoR [APP-029], rydych yn dweud ym mharagraff 1.11.1.18: '<i>Ceisir hawliau mynediad parhaol i gael mynediad i goridor y cebl dros Leiniau [xx].</i>' A allwch chi fynd i'r afael â'r hepgoriad hwn.</p>
Q1.6.13	CCBC DCC	<p>Man Agored</p> <p>Ym mharagraffau 1.11.1.8 i 1.11.1.20 yn gynwysedig o'r SoR [APP-029], mae'r Ymgeisydd yn amlinellu pam y mae'n credu na fyddai rhoi caniatâd datblygu yn destun Gweithdrefn Seneddol Arbennig o ystyried na fyddai 'man agored' o fewn tir y Gorchymyn, gyda hawl y gorchymyn, yn llai buddiol nag ydoedd o'r blaen i: (a) yr unigolion y mae wedi'i freinio ynddynt; (b) unigolion eraill, os o gwbl, sydd â hawliau tir comin neu hawliau eraill; ac (c) y cyhoedd yn unol ag a132(3) PA2008. Gan roi rhesymau dros eich safbwynt, a ydych chi'n fodlon â'r casgliad hwn?</p>
Q1.6.14	Yr Ymgeisydd CCBC DCC	<p>Man Agored</p> <p>Er gwaethaf y casgliad ym mharagraff 1.11.1.20 y SoR [APP-029], a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn gyson ag a132(3) PA2008 o ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyd y cyfnod y gallai'r Man Agored yn Nhraeth Pensarn/Abergele, a ddangosir ar y Cynllun Tir Categori Arbennig [AS-007], fod yn destun TP:

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none">• Y posibilrwydd o wrthdaro rhwng ei ddefnydd arfaethedig a symudiadau gan fodurwyr, cerddwyr a beicwyr sy'n ymweld sy'n defnyddio'r ardal barcio anffurfiol, y traeth, y promenâd, a'r llwybrau beicio ac arfordirol; a'r• Bwriad i osod ffens o amgylch Llain 01-003, y defnyddiau sy'n destun Gwaith Rhif 7 a datblygiad arall cysylltiedig a amlinellir yn Atodlen 1, Rhan 1 y dDCO [REP2-004].
Q1.6.15	Yr Ymgeisydd	Castell Gwrych Ym mharagraff 1.11.1.6 y SoR [APP-029], cyfeiriwyd at waith arolygu ychwanegol yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio ar dir Llywodraeth Cymru ac at drafodaethau parhaus ynglŷn â hawliau tir sy'n ofynnol dros hydroedd gweithredol ac anweithredol o'r A55 ac ardal o goetir yng Nghastell Gwrych. Pa gynnydd a wnaed ar y materion hynny sy'n weddill ac a ydych yn disgwyl y bydd angen unrhyw newid cysylltiedig i'r Cais mewn perthynas â hawliau tir?
Q1.6.16	NFU Ymgynghorwyr Eiddo Davis Meade Ysgutorion y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig. Mr a Mrs JT Owen Unrhyw AP	Cyd-destun polisi A yw paragraffau 2.6.4 a 2.6.5 NPS EN-5 yn darparu cefnogaeth bolisi i ymagwedd yr Ymgeisydd at gaffael tir yn orfodol?
Q1.6.17	NFU Ymgynghorwyr Eiddo Davis Meade	Darpariaethau'r dDCO O ran eich pryderon ynglŷn â hawliau mewn tir a geisir gan yr Ymgeisydd ([PDA-048] a [REP1-082] yn y drefn honno), gan gyfeirio at y dDCO [REP2-004], a allwch chi awgrymu geiriad penodol diwygiadau neu ychwanegiadau at ei ddarpariaethau a fyddai'n mynd i'r afael â nhw?
Q1.6.18	Ymgynghorwyr Eiddo Davis Meade	Diweddariad Yn ei Ymateb i WRau [REP2-078], ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch WR [REP1-082]. Gan roi rhesymau dros eich casgliad ar bob un o'r materion, a yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.6.19	NFU Unrhyw AP	Gollwng Dŵr a Draenio Caeau Yn ei Ymateb i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol ([REP1-011], tudalennau 32 a 33), aeth yr Ymgeisydd i'r afael â phryderon ynglŷn â diffyg manylion canfyddedig am reoli dŵr wyneb ffo a darparu ar gyfer draenio caeau [PDA-048]. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn yn lleddfu'ch pryderon?
Q1.6.20	NFU Unrhyw AP	Rheoli ac adfer pridd Yn ei Ymateb i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol ([REP1-011], tudalennau 32 a 33), aeth yr Ymgeisydd i'r afael â phryderon ynglŷn â rheoli ac adfer pridd [PDA-048] a chyflwynodd Gynllun Rheoli Pridd Amlinellol diwygiedig erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-054] hefyd. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn yn lleddfu'ch pryderon?
Q1.6.21	NFU Unrhyw AP	Cod adeiladu amlinellol Yn ei Ymateb i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol ([REP1-011], tudalennau 31 a 32), cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ble yr oedd wedi gwneud darpariaethau ar gyfer y materion a godwyd o dan y pennawd 'Cod Adeiladu Amlinellol' yng nghyflwyniad yr NFU [PDA-048]. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn yn lleddfu'ch pryderon?
Q1.6.22	Yr Ymgeisydd	Gwaith Galluogi Yn eich Ymateb i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed erbyn y Dyddiad Cau Gweithdrefnol ([REP1-011], tudalen 31), fe gyfeiriodd at waith lliniaru posibl i leihau aflonyddu ar arferion ffermio; sut byddai'r rhain yn cael eu sicrhau trwy'r dDCO?
Q1.6.23	Ysgutorion y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig.	Eglurhad Yn eich WR [REP1-091], fe gyfeiriodd at gynlluniau eraill lle y caffaelwyd tir yr ydych yn berchen arno trwy brydles; at ba NSIPau ydych chi'n cyfeirio?
Q1.6.24	Ysgutorion y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig.	Dewisiadau amgen Yn eich RR [RR-082], rydych yn cyfeirio at ' <i>ddewisiadau amgen synhwyrol</i> ' ar gyfer y llwybr mynediad arfaethedig. A allwch chi ddangos y rhain ar fap neu gynllun?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.6.25	Ysgutorion y Diweddar Syr David Watkin Williams-Wynn. Barwnig.	Diweddariad <ul style="list-style-type: none">• I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd ([PDA-008], tudalennau 334-339 a [REP2-078], i'r materion a godoch yn eich RR ([RR-082] ac WR [REP1-091] yn mynd i'r afael â'ch pryderon?• A allwch chi roi diweddariad ar drafodaethau â'r Ymgeisydd?
Q1.6.26	Pysgodfa Frithyll Tan-y-Mynydd Yr Ymgeisydd	Llwybr amgen <p>Yn yr WR [REP1-080], crybwyllir y '<i>llwybr amgen yn union i'r gogledd o'r bysgodfa</i>'. Gan gyfeirio at y dogfennau perthnasol yn Llyfrgell yr Archwiliad, cyfeiriwch at ble yr amlygwyd ac yr ystyriwyd hyn.</p>
Q1.6.27	Iwan Roberts	Diweddariad <ul style="list-style-type: none">• A yw ymateb yr Ymgeisydd ([PDA-008], tudalennau 180-182) i'r materion a godoch yn eich RR [RR-089] yn mynd i'r afael â'ch pryderon?• A allwch chi roi diweddariad ar drafodaethau â'r Ymgeisydd?
Q1.6.28	G Lloyd Evans a'i Feibion Yr Ymgeisydd	Dewisiadau amgen <p>Mae'r cyflwyniad ysgrifenedig [REP2-103] yn cyfeirio at 2 lwybr arfaethedig a gynigiwyd yn 2022, y cyfeirir atynt fel y '<i>llwybr gogleddol</i>' a'r '<i>llwybr deheuol</i>'. Gan gyfeirio at y dogfennau perthnasol yn Llyfrgell yr Archwiliad, cyfeiriwch at:</p> <ul style="list-style-type: none">• ble yr amlygwyd ac yr ystyriwyd y rhain; a• dulliau adeiladu posibl amgen a werthuswyd.
Q1.6.29	Michael a Sally Leach	Diweddariad <p>Yn ei Ymateb i Sylwadau Ysgrifenedig ([REP2-078], REP1-087.1), ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniad ynglŷn ag iawndal. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?</p>
Q1.6.30	Mrs a Mrs JT Owen	Diweddariad

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Yn ei Ymateb i Sylwadau Ysgrifenedig ([REP2-078], REP1-082.2 a 5), ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniad ynglŷn â graddau arfaethedig yr ymyrraeth â'ch hawliau tir ac iawndal cysylltiedig. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?
1.7 Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO)		
Mae gan yr ExA nifer o gwestiynau cyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd cynhelir Gwrandawriad Mater Penodol ar y dDCO ar 24 Hydref 2024 lle caiff ei archwilio'n fanylach.		
Q1.7.1	Yr Ymgeisydd	<p>Erthygl 8</p> <p>Yn unol ag adran 5.11.25 Nodyn Cyngor NSIP 15: Drafftio DCOau, rhowch gyfiawnhad clir yn yr EM dros gynnwys darpariaethau o'r fath yn yr amgylchiadau penodol, gan gynnwys p'un a geisiwyd safbwyntiau unrhyw awdurdod perthnasol neu adran o'r llywodraeth.</p> <p>Mae Erthygl 8(a) ac (c) yn mynnu cydsyniad gan y rheoleiddiwr yn unol ag a150 PA2008. A allwch chi gadarnhau eich bod wedi cael y cydsyniad hwn?</p>
Q1.7.2	Yr Ymgeisydd	<p>Erthyglau 29(2) a 30(3)</p> <p>Yn eich Ymateb i Sylwadau Perthnasol [PDA-008], fe fynegoch ymrwymiad i roi 3 mis o rybudd ysgrifenedig o waith ar eu tir i APau o fewn Penawdau Telerau cytundeb gwirfoddol. A ydych chi'n bwriadu gwneud y diwygiad cyfatebol i Erthyglau 29 a 30 y dDCO [REP2-004]? Os na, rhowch resymau dros eich ateb.</p>
Q1.7.3	Yr Ymgeisydd	<p>Paramedrau dylunio ym Mhennod 3 yr ES a Thablau 2 a 4 y dDCO (Atodlen 2)</p> <p>Mae rhai anghysondebau rhwng yr ES a Thablau 2 a 4 Atodlen 2:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r ES Tabl 3.1 yn nodi uchafswm hydroedd y ceblau rhyng-arâe a'r ceblau rhyng-gysylltu alltraeth fel 325km a 50km, yn y drefn honno. Fe'u dangosir felly yn y dDCO Atodlen 14 Tabl 4 a hefyd fel cyfanswm ffigur cyfunol (375km). Fodd bynnag, yn y dDCO Atodlen 2 Tabl 2, dangosir y ddau bamedr fel cyfanswm cyfunol yn unig (375km); • amlinellir uchafswm nifer y croesfannau ceblau rhyng-arâe (67) a rhyng-gysylltu (10) fel ffigurau ar wahân yn yr ES (Tablau 3.19 a 3.25, yn y drefn honno). Dim ond cyfanswm cyfunol (77) a ddangosir yn y dDCO Atodlen 2 Tabl 2 ac Atodlen 14 Tabl 4;

ExQ1: 13 Medi 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • mae'r dDCO Tabl 2 yn nodi uchafswm nifer y croesfannau ceblau allforio alltraeth fel 14, ond fe'i dangosir fel 24 yn yr ES Tabl 3.22; • mae'r dDCO Atodlen 2 R6(3)(b) yn darparu, mewn perthynas â'r is-orsaf ar y tir, na chaiff ran uchaf unrhyw offer trydanol allanol (heblaw am rodenni melt) fod yn fwy na 12.5m uwchben lefel y tir gorffenedig ac mae R6(3)(d) yn nodi na chaiff cyfanswm nifer y rhodenni melt o fewn y cyfateilad â ffens o'i amgylch fod yn fwy na 12m. Nid yw'r paramedrau hyn wedi'u hamlinellu ym Mhennod 3 yr ES er bod paramedrau eraill yr is-orsaf wedi'u hadlewyrchu ynddi (Tabl 3.34). Mae paragraff 3.6.2.1 y ddogfen Egwyddorion Dylunio yn gyson â'r dDCO mewn perthynas â'r rhodenni melt, ond mae'n nodi uchafswm uchder o 15m ar gyfer yr offer trydanol. <p>A all yr Ymgeisydd gywiro neu esbonio'r anghysondebau?</p>
Q1.7.4	Yr Ymgeisydd	<p>Trwydded Forol Dybiedig</p> <p>Mae Rhan 2 Amod 18(1)(d)(i)(bb) y DML [REP2-004] yn datgan y bydd asesiad risg claddu cebl yn amlygu a oes gostyngiad >5% mewn dyfnder mordwyadwy. Mae'n cyfeirio at ymgynghori â'r MCA a Thŷ'r Drindod. Mae Tabl 1.13 yr Adroddiad ACA Cam 2 [APP-032] yn datgan bod angen cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw ostyngiad o'r fath mewn dyfnder mordwyadwy. A oes angen diweddaru geiriad y DML i adlewyrchu hyn?</p>
Q1.7.5	Yr Ymgeisydd	<p>Trwydded Forol Dybiedig</p> <p>Mae Tablau 1.84 ac 1.152 [APP-032] yn datgan y cynigir Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr a Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr i sicrhau mesurau ar gyfer effeithiau niweidiol ac aflonyddu o ganlyniad i osod seilbyst, clirio ordnans heb ffrwydro (UXO) a rhai gweithgareddau geoffisegol. Mae'r rhain i'w sicrhau yn y dDCO [REP2-004] trwy Ran 2 Amod 18(1)(hi) a Rhan 2 Amod 20, yn y drefn honno; fodd bynnag, nid yw'r naill Amod na'r llall yn cyfeirio at weithgareddau geoffisegol. A all yr Ymgeisydd ddiwygio'r amodau yn unol â hynny?</p>
<p>1.8 Perygl Llifogydd a'r Amgylchedd Dŵr</p>		
Q1.8.1	Stuart Neil	Diweddariad

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Yn ei Ymateb i RRau ([PDA-008], tudalennau 328 a 329), aeth yr Ymgeisydd i'r afael â sylwadau yn eich RR [RR-078] ynglŷn â ffynhonnau naturiol a chyrsgiau dŵr. Gan roi rhesymau dros eich ymateb, a yw hyn wedi mynd i'r afael â'ch pryderon?
Q1.8.2	Rebecca Face	Diweddariad Yn ei Ymateb i RRau ([PDA-008], tudalen 293), aeth yr Ymgeisydd i'r afael â sylwadau yn eich RR [RR-068] ynglŷn â chyrsgiau dŵr a llifogydd o amgylch yr ardal TCC2. A yw hyn wedi mynd i'r afael â'ch pryderon? Os na, esboniwch pam.
Q1.8.3	Michael a Sally Leach	Diweddariad Yn ei Ymateb i WRau ([REP2-078], REP1-087.2), aeth yr Ymgeisydd i'r afael â'ch cyflwyniad ynglŷn ag effaith bosibl y Datblygiad Arfaethedig ar gyflenwad dŵr eich eiddo. Gan roi rhesymau dros eich casgliad, a yw hyn wedi mynd i'r afael â'ch pryderon?
1.9 Daeareg a Chyflwr y Tir		
Q1.9.1	CCBC	Gwaith wrth y lanfa Fe godoch bryderon [RR-009] y gallai gwaith wrth y lanfa effeithio ar sefydlogrwydd y safle tirlenwi yn Nhraeth Llanddulas. A yw Ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Perthnasol ([PDA-008], tudalen 22) a CNC (A)'s (REP1-056, paragraff 302) wedi mynd i'r afael â'r mater hwnnw?
1.10 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd		
Q1.10.1	Yr Ymgeisydd	Safleoedd Ramsar Ynys Manaw A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Ramsar (posibl a rhestredig) canlynol Ynys Manaw a'r casgliadau yn hyn o beth? <ul style="list-style-type: none">• Ramsar Curragh Ballaugh• Ramsar arfaethedig Dyffryn Canolog Curragh• Ramsar arfaethedig Mawndiroedd Dalby

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • Ramsar arfaethedig Gob ny Rona, Maughold Head a Port Cornaa • Ramsar arfaethedig yr Arfordiroedd Deheuol a Calf of Man • Ramsar arfaethedig yr Eyres.
Q1.102	Yr Ymgeisydd CNC (C) JNCC	<p>Sgrinio A all yr Ymgeisydd roi rhesymeg ychwanegol ar gyfer ei ddatganiad bod 'tebygolrwydd isel y bydd Ardal Aráe Mona yn arwain at effeithiau rhwystr ar gyfer nodweddion cymwys AGAau' (paragraff 1.4.6.25 [REP2-012]).</p> <p>A yw CNC (C) a'r JNCC yn cytuno â datganiad yr Ymgeisydd ac y gellir hepgor effeithiau rhwystr?</p>
Q1.103	Yr Ymgeisydd CNC (C) JNCC	<p>Sgrinio Mae'r ExA yn nodi ymrwymiad yr Ymgeisydd i asesu effeithiau ar y cyd lle y daethpwyd i'r casgliad na fydd LSE o'r prosiect ar ei ben ei hun yn adran 1.4 Adroddiad Sgrinio Cam 1 yr HRA [REP2-012]. A all yr Ymgeisydd ddarparu asesiad o'r fath, lle na wnaed hyn o fewn yr HRA, ac amlygu'r prosiectau neu'r cynlluniau a ystyriwyd.</p> <p>A yw CNC (C) a'r JNCC o'r farn bod posibilrwydd o LSE ar y cyd ar gyfer unrhyw safle/nodwedd y mae'r Ymgeisydd wedi eithrio LSE arno/arni o'r prosiect ar ei ben ei hun?</p>
Q1.104	Yr Ymgeisydd	<p>Sgrinio A all yr Ymgeisydd gadarnhau ei fod wedi ymgynghori â chynghorwyr cadwraeth natur perthnasol ar gyfer AGAau yn nyfroedd Iwerddon a'r Alban ac Ardal Forol Warchoddedig (MPA) y Deyrnas Unedig sy'n cael eu sgrinio yr amlygwyd LSE ar eu cyfer.</p>
Q1.105	Yr Ymgeisydd CNC(C)	Amcanion cadwraeth

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Mae'r Adroddiad ACA Cam 2 [APP-032] yn nodi nad oes asesiadau cyflwr ar gael ar gyfer nifer o ACAau. A all yr Ymgeisydd a CNC(C) gadarnhau p'un a oes asesiadau cyflwr ar gael bellach/ yn debygol o ddod ar gael yn ystod yr archwiliad ar gyfer unrhyw un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ACA Afon Derwent a Llyn Bassenthwaite • ACA Solway Firth • ACA Gogledd Môn Forol • ACA Sianel y Gogledd • ACA Murlough • ACA The Maidens • ACA Dynesfeydd Môr Hafren • ACA Ynys Wair • ACA Gymhleth Ynysoedd Scilly
Q1.106	Yr Ymgeisydd	<p>Amcanion Cadwraeth</p> <p>Bydd yr ExA yn ystyried y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeidd yng ngoleuni eu hamcanion cadwraeth. A all yr Ymgeisydd ddarparu amcanion cadwraeth ar gyfer yr holl safleoedd Ewropeidd yr amlygwyd Effaith Arwyddocaol Debygol ar eu cyfer.</p>
Q1.107	Yr Ymgeisydd CNC(C)	<p>Amcanion Cadwraeth</p> <p>Mae'r Adroddiad ACA Cam 2 [APP-032] yn amlygu safleoedd a nodweddion sydd mewn cyflwr anffafriol. Fodd bynnag, ni nodwyd cyflwr AGAau/safleoedd Ramsar yn yr Adroddiad AGA Cam 2 [REP2-010]. A all yr Ymgeisydd a CNC (C) gynghori a yw'r wybodaeth hon ar gael?</p>
Q1.108	Yr Ymgeisydd	<p>Amcanion Cadwraeth</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw unrhyw rai o nodweddion cymwys y safleoedd Ewropeidd a aseswyd yn yr Adroddiad AGA Cam 2 [REP2-010] mewn cyflwr anffafriol a/neu â tharged Amcan Cadwraeth (CO) arferol?</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.10.9	Yr Ymgeisydd	Aseiad Cam 2 Mae Adroddiad ACA Cam 2 yr Ymgeisydd [APP-032] yn dibynnu ar fesurau mewn Datganiad Dull Adeiladu (CMS) Alltraeth i osgoi effeithiau niweidiol ar ACA Y Fenai a Bae Conwy. Ni chyflwynwyd CMS alltraeth amlinellol ac nid oes trwydded forol ar wahân ar gyfer y coridor ceblau ar hyn o bryd. Felly, nid yw'r ExA yn hyderus bod y mesurau hyn wedi cael eu sicrhau. A all yr Ymgeisydd ddarparu CMS Alltraeth amlinellol, sy'n ymgorffori'r holl fesurau perthnasol ac y gellir ei ardystio yn y DCO a chyfeirio ato o fewn gofynion perthnasol.
Q1.10.10	Yr Ymgeisydd	Aseiad Cam 2 Mae'r Ymgeisydd wedi datgan na fyddai unrhyw waith clirio tonnau tywod yn digwydd o fewn ACA Y Fenai a Bae Conwy. A all yr Ymgeisydd roi sicrwydd a dangos y bydd modd gosod o hyd heb glirio tonnau tywod, yn enwedig o ystyried natur symudol tonnau tywod?
Q1.10.11	Yr Ymgeisydd	Aseiad Cam 2 Mae paragraff 1.5.3.9 yr Adroddiad ACA Cam 2 [APP-032] yn datgan y bydd gweithgareddau clirio safle'n digwydd y tu allan i ACA Y Fenai a Bae Conwy yn unig. Mae adran 3.5.4 y disgrifiad o'r prosiect yn yr ES [APP-050] yn awgrymu bod angen paratoi'r safle ar draws safle cyfan y cais. Mae'r ACA yn gorgyffwrdd ychydig â safle'r cais. A all yr Ymgeisydd gadarnhau a fydd gwaith clirio safle'n cael ei gyfyngu yn ACA Y Fenai a Bae Conwy ac, os felly, sut bydd hyn yn cael ei reoli?
Q1.10.12	Yr Ymgeisydd	Aseiad Cam 2 Mae Adroddiad ACA Cam 2 [APP-032] ac Adroddiad AGA Cam 2 [REP2-010] yr Ymgeisydd yn dibynnu ar fesurau mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol (EMP) Alltraeth i osgoi effeithiau niweidiol ar nodweddion cymwys mamaliaid môr ac adar alltraeth. A all yr Ymgeisydd ddarparu EMP Alltraeth amlinellol i roi sicrwydd bod yr holl fesurau y dibynnir arnynt i osgoi AEol wedi cael eu sicrhau?
Q1.10.13	Yr Ymgeisydd	Aseiad ar y Cyd Cam 2 A all yr Ymgeisydd esbonio pam mae Tabl 1.3 yn cynnwys Barcut Llanw Minesto a phrosiect Llanw Morlais yn Nhabl 1.3 fel prosiectau Haen 1, ond nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn Nhabl 1.57. Yn yr un

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		modd, mae Fferm Wynt Alltraeth Arnofiol TwinHub wedi'i chynnwys yn Nhabl 1.3 fel prosiect Haen 2, ond nid yw wedi'i chynnwys yn Nhabl 1.57. A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a yw'r prosiectau hyn wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar y cyd ai peidio?
Q1.10.14	CNC (C) JNCC	<p>Asesiad ar y Cyd Cam 2</p> <p>A yw CNC (C)/JNCC yn fodlon ar y prosiectau a gynhwyswyd yn yr asesiadau ar y cyd, fel y'u manylir yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Atodiad I cynefinoedd – Tabl 1.21 a Ffigur 1.9 [REP2-012] • Atodiad II rhywogaethau pysgod sy'n mudo rhwng dŵr môr a dŵr croyw – Tabl 1.58 a Ffigur 1.9 [REP2-012] • Atodiad II mamaliaid môr – Tabl 1.154 a Ffigur 1.13 [REP2-012] • Nodweddion adar alltraeth – Tabl 1.57 a Ffigur 1.21 [REP2-010]
Q1.10.15	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad ar y Cyd Cam 2</p> <p>Ymatebodd Cyngor Sir Meath i ymgynghoriad trawsffiniol yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 [OD-021]. Amlygodd hyn fod gan ddau gais am ffermydd gwynt alltraeth (Oriol ac Aráe Gogledd Môr Iwerddon) wybodaeth ES a HRA ar gael ar eu gwefan. Fodd bynnag, mae HRA Mona yn datgan bod gwybodaeth Adroddiad Cwmpasu ar gael yn unig ar gyfer y ddau brosiect hyn.</p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio p'un a oes gan y wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer y ddwy fferm wynt alltraeth hyn unrhyw oblygiadau i HRA Fferm Wynt Alltraeth Mona? A all yr Ymgeisydd gadarnhau a fydd yn diweddarar yr asesiad ar y cyd (gan gynnwys yr asesiad o effeithiau cronol)?</p>
Q1.10.16	Yr Ymgeisydd	<p>NatureScot</p> <p>Wrth ymateb i gyflwyniad NatureScot [AS-024], a all yr Ymgeisydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> ymateb i broblemau yn ymwneud ag ansawdd y cais; a chynnal asesiad o safleoedd Ewropeaidd yn yr Alban i gyd-fynd â chanllawiau perthnasol yr Alban a ddatganwyd gan NatureScot (yn enwedig trothwyon gwahanol sy'n ysgogi Dadansoddiad

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Hyfywedd Rhywogaeth (PVA) ar gyfer rhywogaethau cymwys perthnasol o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yr Alban).
1.11 Yr Amgylchedd Hanesyddol		
Q1.11.1	Yr Ymgeisydd	Wal Derfyn Castell Gwrych Rhowch ddiweddariad ar statws y Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer addasu'r wal derfyn restredig yng Nghastell Gwrych (i hwyluso traffig adeiladu), gan gynnwys y llinell amser arfaethedig ar gyfer y cais hwn. Os na roddir caniatâd, beth yw'r goblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig?
Q1.11.2	Yr Ymgeisydd	Arolygon Archaeolegol Yn [APP-068], Adran 5.6.3, ynglŷn ag ymchwilio ymhellach i botensial archaeolegol tir yn rhannau o Ardal Ddatblygu ar y Tir Mona, dywedir bod ymchwiliadau archaeolegol ychwanegol wedi dechrau. A allwch chi roi diweddariad ar gynnydd ac unrhyw oblygiadau i'r canlyniadau a gyflwynwyd yn yr ES.
1.12 Defnydd Tir		
Q1.12.1	Yr Ymgeisydd	Cyd-destun polisi Mae paragraff 7.5.2.6 yr ES Pennod 7 (Cyfrol 3) [APP-070] yn nodi dau awdurdod ar gyfer asesu arwyddocâd effaith y Datblygiad Arfaethedig ar briddoedd. Esboniwch sut y daethoch i'ch casgliad ym mrawddeg olaf y paragraff hwnnw.
Q1.12.2	Yr Ymgeisydd	Gwybodaeth ychwanegol Yn ei WR [REP1-051], amlygodd Llywodraeth Cymru 8 maes penodol o wybodaeth ychwanegol yr oedd o'r farn eu bod yn angenrheidiol er mwyn adolygu eich arolwg maes Dosbarthiad Tir Amaethyddol. A ydych chi'n bwriadu cyflwyno'r wybodaeth hon i'r Archwiliad? Os na, esboniwch pam nad ydych yn credu ei bod yn angenrheidiol.
Q1.12.3	Yr Ymgeisydd	Amharu ar adnoddau hamdden

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Yn Adran 7.8.5 yr ES Pennod 7 (Cyfrol 3) [APP-070], rydych yn dweud bod potensial i'r Datblygiad Arfaethedig amharu dros dro ar chwe adnodd hamdden a amlygwyd. A allwch chi gynghori'n gryno ynglŷn â natur, graddau a hyd tebygol yr amhariad a ddisgwylir?
Q1.124	Michael a Sally Leach, Mr a Mrs JT Owen	Dargyfeirio Llwybrau Troed a PRoW Yn ei Ymateb i RRau ([PDA-008], tudalennau 243 a 256), amlygodd yr Ymgeisydd ei gynigion ar gyfer rheoli neu ddargyfeirio llwybrau troed a PRoW, a chyflwynodd Strategaeth Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus Amlinellol wedi'i diweddarau [REP2-070] erbyn Dyddiad Cau 2. Os ydych o'r farn bod y cynigion hyn yn annigonol, a allwch chi gynghori sut mae angen eu hategu ac amlygu unrhyw lwybrau sy'n achosi pryder penodol?
Q1.125	Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd-y-foel	Effaith bosibl ar y gymuned leol I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd ([PDA-008], tudalen 54) i'r materion a godoch [RR-035] yn mynd i'r afael â'ch pryderon?
Q1.126	Lois Williams	Diweddariad I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd ([REP1-011], tudalennau 231-232) i'r materion a godoch [PDA-051] yn mynd i'r afael â'ch pryderon?
Q1.127	Yr Ymgeisydd	Ffermydd Ilaeth dwys Gan gyfeirio, fel y bo'n briodol, at Ffigurau 7.3 i 7.6 yn gynnwysedig yn yr ES Pennod 7 (Cyfrol 3) [APP-070], a allwch chi roi'r rhifau Daliad Tir cyfatebol ar gyfer y tri gweithrediad ffermio Ilaeth dwys y cyfeiriwch atynt ym mharagraff 7.4.7.10 y bennod honno?
Q1.128	NFU Ymgynghorwyr Eiddo Davis Meade G Lloyd Evans a'i Feibion	Effaith ar ddaliadau fferm Yn Adran 7.8.3 yr ES Pennod 7 (Cyfrol 3) [APP-070], mae'r Ymgeisydd yn asesu arwyddocâd effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ddaliadau fferm yn ystod pob un o'i gamau, ar ôl ystyried mesurau a fabwysiadwyd mewn perthynas â Daliadau Fferm yn Nhabl 7.24 y bennod honno. Gan roi rhesymau dros eich casgliadau, a ydych chi'n cytuno â'i asesiad?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Unrhyw AP	
1.13	Tirwedd a Gweledol a Dylunio Da	
Q1.13.1	Yr Ymgeisydd	<p>Goleuo tasgau</p> <p>Yn ystod Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) 2 [EV3-008] ac yn [REP1-012], cadarnhawyd y byddai dull goleuo tasgau'n cael ei ddefnyddio yn ystod oriau tywyllwch i adeiladu'r Is-orsaf ar y Tir, a bod goleuo tasgau wedi'i gynnwys yn rhan o'r MDS yn yr LVIA.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodir bod Tabl 6.19 yr ES Pennod 3 (Cyfrol 3) yn cyfeirio at oleuo tasgau ac yn [REP2-086] rydych yn datgan bod hyn wedi cael ei asesu. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr asesiad o effeithiau yn y nos yn yr ES Atodiad 6.4 (Cyfrol 7) [APP-156] yn cyfeirio at oleuo tasgau o gwbl. A all yr Ymgeisydd esbonio sut neu ble yr aseswyd hyn a diweddarau'r LVIA yn unol â hynny? • Os aseswyd goleuo tasgau (ar gyfer adeiladu), a dybiwyd unrhyw derfynau uchaf neu isaf ar gyfer lefelau dwysedd? • Os na, a ydych chi'n credu y byddai'n briodol darparu terfyn ar lefelau dwysedd golau ar gyfer y goleuo tasgau sy'n ofynnol yn ystod adeiladu ar safle'r Is-orsaf ar y Tir?
Q1.13.2	DCC, CCBC	<p>Mesurau Lliniaru Tirwedd</p> <p>Mae'r LIR [REP1-049] yn datgan yr hoffech weld mesurau lliniaru priodol a chymesur yn cael eu cynnwys a'u sicrhau yn y cais DCO i fynd i'r afael â'r effeithiau cronol ychwanegol a ragfynegir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi esbonio'n fanylach ba ffurf a/neu fathau o fesurau lliniaru a fyddai'n briodol, yn benodol ar gyfer yr effeithiau cronol a amlinellwyd? • A fyddai'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu cynnwys yn rhan o'r OLEMP presennol? • A allai gwrthbwysu trwy gynllun Gwella Tirwedd fod yn briodol yn yr achos hwn?
Q1.13.3	Yr Ymgeisydd	<p>Effaith ar Dirweddau Cenedlaethol</p> <p>Wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau mewn perthynas â thir mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) (sef Tirweddau Cenedlaethol bellach), neu sy'n effeithio arno, mae adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod perthnasol i ystyried diben gwarchod neu wella harddwch naturiol yr AHNE.</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> O ran Tirwedd Genedlaethol CRDV, a all yr Ymgeisydd esbonio pam y mae'n ystyried y gallai'r awdurdod perthnasol fod yn fodlon y byddai'r ddyletswydd a osodwyd arno'n cael ei chyflawni pe byddai caniatâd datblygu'n cael ei roi?
Q1.134	Yr Ymgeisydd	<p>Mynediad o Glascoed Road</p> <p>Dangosir y fynedfa i'r is-orsaf ar y tir yn Ffigur 3.21 y Disgrifiad o'r Prosiect [APP-050], a disgrifir y fynedfa barhaol yn yr MDS a amlinellir yn Nhabl 6.19 F3.6 [APP-069].</p> <ul style="list-style-type: none"> A allwch chi roi mwy o fanylion am y llwybr y byddai'r ffordd barhaol yn ei dilyn? A ellir dangos neu droshaenu'r ffordd fynediad ar y Cynllun Strategaeth Tirwedd ac Ecolegol Dangosol? Cadarnhewch a fyddai angen unrhyw dirweddau lliniarol yng nghyffiniau'r ffyrdd mynediad parhaol.
Q1.135	CNC, DCC, CCBC	<p>Asesiad o Effeithiau mewn lleoliadau o amgylch yr Is-orsaf ar y Tir</p> <p>A ydych chi'n cytuno â'r asesiad o sensitifrwydd, maint effeithiau ac arwyddocâd effeithiau'r VP gynrychioliadol o amgylch yr Is-orsaf ar y Tir a ddarperir yn [APP-069], yn enwedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Yr asesiad o faint effeithiau ac arwyddocâd effeithiau ar VPau Cynrychioliadol 1, 2, a 3, ym Mlwyddyn 1 a Blwyddyn 15. Y gostyngiad yn arwyddocâd effeithiau niweidiol yn y VPau hyn ar ôl gweithredu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr OLEMP [REP2-084] ac a ddangosir yn y delweddau. P'un a fyddai'r mesurau lliniaru a ddangosir yn yr OLEMP, ac yn y delweddau wedi'u hanodi a gynhwyswyd yn yr Ymateb i Bwyntiau Gweithredu Gwrandawriad (S_D1_5.3) [REP1-015], yn lleihau'r effeithiau gweithredu o arwyddocaol i heb fod yn arwyddocaol ar gyfer VPau 2 a 3.
Q1.136	Yr Ymgeisydd	<p>Golygfannau 2 a 3</p> <p>Darparwyd delweddau wedi'u diweddarau a'u hanodi erbyn Dyddiad Cau 1 [REP1-015] ar gyfer VPau 2 a 3. Mae'r rhain yn dangos y golygfannau cynrychioliadol ym Mlwyddyn 1 yn y gaeaf, ac ym Mlwyddyn 15 yn yr haf.</p> <ul style="list-style-type: none"> Esboniwch a fyddai unrhyw wahaniaeth sylweddol i gwmpas a swyddogaeth y mesurau lliniaru rhwng y gaeaf ym mlwyddyn 15 a'r haf ym mlwyddyn 15?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • A allai fod unrhyw wahaniaeth cyfatebol i arwyddocâd effeithiau, fel y'u haseswyd ar gyfer y golygfannau?
Q1.13.7	DCC, CCBC	<p>Effeithiau Gweledol ar Barc Coffa ac Amlogfa Sir Ddinbych</p> <p>A ydych chi'n fodlon ar ymateb yr Ymgeisydd i'r effeithiau ar ddefnyddwyr y Parc Coffa a'r Amlogfa? [REP2-086], (REP1-016.17)</p>
Q1.13.8	Yr Ymgeisydd	<p>Golygfeydd o Eiddo Preswyl</p> <p>Mae Adran 6.5.7.6 [APP-069] yn disgrifio'r golygfeydd tuag at safle'r Is-orsaf ar y Tir o'r eiddo preswyl agosaf, a faint o niwed y byddai'r eiddo hyn yn ei brofi o ran effeithiau gweledol. Yng ngoleuni'r pwyntiau a godwyd yn [REP1-086], a allwch chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ddisgrifio pa olygfannau llawr gwaelod a ystyriwyd • Disgrifio beth fyddai 'niwed sylweddol' yn ei olygu yn y cyd-destun hwn • Esbonio pam yr ystyrir nad yw'r eiddo'n profi niwed sy'n fwy na sylweddol i wneud ystyried golygfeydd preifat yn fater o fudd i'r cyhoedd.
Q1.13.9	DCC a CCBC	<p>Methodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol</p> <p>Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn adran 3.3 yr LIR. Mae'r Ymgeisydd wedi ymateb yn REP2-086. A yw hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon?</p>
Q1.13.10	Yr Ymgeisydd	<p>OLEMP</p> <p>Dywedir mai'r cyfnod cynnal a chadw ac ailblannu ar gyfer planhigion neu goed lliniarol sydd wedi marw yw 5 mlynedd yn yr OLEMP [REP2-084], adran 1.8.3.,</p> <ul style="list-style-type: none"> • O ystyried y ddibyniaeth ar blannu i leihau effeithiau arwyddocaol dros gyfnod o 15 mlynedd, a yw 5 mlynedd yn ddigonol? • Pe byddai angen i blanhigion neu goed lliniarol gael eu hamnewid ar ôl pum mlynedd, pwy fyddai'n gyfrifol am hynny?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl 5 mlynedd, pa ddull fyddai ar waith i sicrhau bod y planhigion a'r coed lliniarol yn cyrraedd aeddfedrwydd ac ansawdd digonol i gyflawni'r swyddogaeth liniaru fel sy'n ofynnol?
Q1.13.11	DBC, CBCC	<p>Gofyniad 5 y dDCO</p> <p>O ran yr Is-orsaf ar y Tir, mae'r Ddogfen Egwyddorion Dylunio [REP2-026] yn disgrifio nifer o fanylion dylunio – gan gynnwys gosodiad, nifer yr adeiladau, dimensiynau, lliwiau, a deunyddiau – a fyddai'n cael eu cymeradwyo gan DBC pe byddai Caniatâd Datblygu'n cael ei roi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n ystyried bod R5 y dDCO yn ddigon manwl? Os na, sut dylid ei ddiwygio a pham? • A ydych chi'n ystyried y byddai gennych y sgiliau a'r adnoddau perthnasol i gymeradwyo'r dyluniad manwl wrth gyflawni'r gofynion perthnasol?
Q1.13.12	Comisiwn Dylunio Cymru	<p>Egwyddorion Dylunio Da</p> <p>A hoffai Comisiwn Dylunio Cymru wneud unrhyw sylwadau ar y pwyntiau a'r egwyddorion a amlinellwyd gan yr Ymgeisydd yn ystod ISH2 [EV3-008] ac a grynhowyd yn Adran 9 [REP1-010] ynglŷn â dylunio da a'r broses adolygu dyluniad ar gyfer yr Is-orsaf ar y Tir?</p>
1.14	Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol a Newid Arfordirol	
Q1.14.1	Yr Ymgeisydd	<p>Modelu Rhifiadol yn yr Amgylchedd Agos i'r Lan</p> <p>Mae CNC wedi mynegi pryderon nad yw'r modelu rhifiadol a gynhaliwyd i bennu'r effaith ar brosesau ffisegol a achosir gan fesurau amddiffyn ceblau wedi cael ei gynnal yn yr amgylchedd bas yn agos i'r lan pe byddai'r mesurau amddiffyn ceblau'n cael eu gosod dros y pedair ardal derfyn ar gyfer drilio di-ffos.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A all yr Ymgeisydd ddarparu modelu rhifiadol ychwanegol yn y dŵr bas yn agos i'r lan? • Os nad yw'r Ymgeisydd yn credu bod hyn yn angenrheidiol, rhowch gyfiawnhad clir a dangoswch sut gall y penderfynwr fod yn fodlon, yng ngoleuni paragraffau 5.6.17 a 5.6.18 NPS EN-1: <ul style="list-style-type: none"> - Y byddai unrhyw effeithiau posibl ar brosesau arfordirol mewn lleoliadau eraill yn cael eu lleihau i'r eithaf - Y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn gallu gwrthsefyll erydu a dyddodi arfordirol, o ystyried y newid yn yr hinsawdd, yn ystod oes weithredol y prosiect ac unrhyw gyfnod datgomisiynu

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.142	CNC (C)	<p>Technegau Di-ffos</p> <p>Mae paragraff 220 [REP1-056] yn datgan nad yw'r ymrwymiad i sicrhau technegau di-ffos yn yr ardal rynglanw yn ddigon penodol yn yr MLPD [REP2-028].</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi ddarparu geiriad a fyddai'n lleddfu'r pryder hwn.
Q1.143	CNC(C)	<p>OLCMS</p> <p>A ydych chi'n credu y dylai'r OLCMS [REP2-066] gynnwys cynllun monitro glanfa amlinellol ar gyfer monitro ar ôl adeiladu?</p>
Q1.144	Yr Ymgeisydd/ CNC(C)	<p>Monitro Adfer Tonnau Tywod</p> <p>Mae [REP1-056] yn ailadrodd cais CNC y dylai monitro adfer tonnau tywod gael ei gynnwys mewn arolygon ôl-osod, yn enwedig ar Fanc Constable, a fyddai'n cefnogi datganiadau yn ogystal â helpu i lywio gwaith yn y dyfodol. Mae'r ExA yn nodi nad yw'r Ymgeisydd yn credu bod hyn yn angenrheidiol gan na ragfyneir unrhyw effeithiau arwyddocaol.</p> <p>Yr Ymgeisydd:</p> <p>Mae paragraffau 2.8.83 a 2.8.85 NPS EN-3 yn datgan, pan fydd yr SoS yn gofyn, y bydd rhaid i ymgeiswyr gynnal arolygon geomorffolegol cyn ac yn ystod adeiladu a gweithredu, a fyddai'n galluogi asesu cywirdeb y rhagfynegiadau gwreiddiol a gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer mesurau lliniaru a digolledu yn y dyfodol, fel y gellir gwneud penderfyniadau gwell mewn EIAau a HRAau yn y dyfodol. A all yr Ymgeisydd gyfiawnhau, yng ngoleuni'r paragraffau hyn, pam y mae'n teimlo na fyddai hyn yn briodol yn yr achos hwn er gwaethaf y cais gan CNC.</p> <p>CNC:</p> <p>Byddai monitro'n cael ei wneud i arsylwi effaith cludo gwaddodion a llwybrau gwaddodion ar gladdu ceblau, fel yr amlinellir yn Nhabl 1.2 y cynllun monitro mewn egwyddor Alltraeth [APP-201]. A fyddai hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon neu a ellid ei ddiwygio i fynd i'r afael â'ch pryderon?</p>

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
1.15 Mordwyo a Morgludiant		
Q1.15.1	Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)	<p>Diogelwch mordwyo a chwilio ac achub</p> <p>A hoffech chi wneud sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i'ch Sylw Ysgrifenedig, fel y'i hamlinellir yn Nhabl 2.6 [REP2-078], yn enwedig mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwygiadau i Amod 18(1)(a) y DML [REP2-004] mewn perthynas ag egwyddorion gosodiad a ph'un a yw'r dwy linell gyfeirio wedi'u sicrhau'n ddigonol (cyf REP1-068.4); • P'un a yw'r gostyngiad mewn gallu chwilio ac achub o ganlyniad i bresenoldeb yr aráe alltraeth wedi cael ei liniaru'n llawn (cyf REP1-068.6); • Y gofyniad am arolygon radio a ph'un a oes angen diwygio drafft Amod 22 y DML a/neu unrhyw Amodau DML eraill i gyflawni hyn (cyf REP1-068.7); • Sicrhau bod System Adnabod Awtomatig (AIS) a gallu Amledd Uchel iawn (VHF) yn cael eu darparu i'r MCA gyda mynediad uniongyrchol i systemau Gwylwyr y Glannau Ei Fawrhydi (cyf REP1-068.7); • Parthau diogelwch (cyf REP1-068.14); ac, • Y sail resymegol dros ficroleoli 125m tyrbinau a phlatfformau ac effeithiau cynyddol ar gyflawni'r gofodau 1,400m (cyf REP1-068.24).
Q1.15.2	CLdN RoRo Ltd	<p>Diogelwch mordwyo, chwilio ac achub, a llwybro mewn tywydd gwael</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch Sylw Perthnasol yn Nhabl 2.8 [PDA-008]. A allwch chi ymateb i'r cwestiynau canlynol, gan ddarparu cyfiawnhad i'ch ymatebion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd [APP-059], er y byddai risg weddilliol dros y llinell sylfaen o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig, bod yr holl beryglon wedi cael eu lleihau i lefel Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol (ALARP)? • A ydych chi'n cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd y byddai effeithiau ar ymatebion brys (fel y rhai hynny i bobl sydd wedi'u hanafu ar y môr) o arwyddocâd niweidiol bach? • A ydych chi'n cytuno â chasgliad yr Ymgeisydd y byddai'r effeithiau ar lwybro mewn tywydd gwael, ar gyfer prosiect Mona ar ei ben ei hun ac ar y cyd, o arwyddocâd niweidiol bach?

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • A hoffech chi wneud unrhyw gyflwyniadau ychwanegol ynglŷn ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar forgludiant a mordwyo?
Q1.153	Stena Line (UK) Limited	<p>Effeithiau ar weithrediadau Stena Line</p> <ul style="list-style-type: none"> • A hoffech chi wneud sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniadau erbyn Dyddiad Cau 1, fel yr amlinellir yn [REP2-078], Tabl 2.14? • A ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol prosiect Mona <u>ar ei ben ei hun</u> ar weithrediadau masnachol Stena Line o ran amser hwylio ychwanegol ar lwybr Lerpwl i Belfast o arwyddocâd niweidiol bach (fel yr amlinellir yn adran 7.9.3 [APP-059])? • A ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol prosiect Mona <u>ar ei ben ei hun</u> ar lwybro mewn tywydd gwael ar gyfer gwasanaethau Stena Line rhwng Lerpwl a Belfast o arwyddocâd niweidiol bach (fel yr amlinellir yn adran 7.9.4 [APP-059])? • A ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol prosiect Mona <u>ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill</u> ar weithrediadau masnachol Stena Line o ran amser hwylio ychwanegol o arwyddocâd niweidiol cymedrol (fel yr amlinellir yn adran 7.11.3 [APP-059])? • A ydych chi'n cytuno â safbwynt yr Ymgeisydd y byddai effeithiau gweddilliol prosiect Mona <u>ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill</u> ar lwybro mewn tywydd gwael ar gyfer gwasanaethau Stena Line rhwng Lerpwl a Belfast o arwyddocâd niweidiol cymedrol (fel yr amlinellir yn adran 7.11.4 [APP-059])? • A oes unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol y credwch y dylai'r Ymgeisydd eu mabwysiadu i leihau effeithiau gweddilliol y Datblygiad Arfaethedig ar weithrediadau Stena Line ymhellach?
Q1.154	Yr Ymgeisydd	<p>Diweddariad ar ymgysylltu ag Isle of Man Steam Packet Company</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn y crynodeb a ddarparwyd yn ISH2 [REP1-010], a all yr Ymgeisydd roi diweddariad ar ei drafodaethau parhaus ag Isle of Man Steam Packet Company mewn perthynas â'r effeithiau arwyddocaol tebygol ar llwybro tywydd garw? • I ba raddau y cytunir â chasgliadau asesiad yr Ymgeisydd a'i ymagwedd at fesurau lliniaru?

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.155	Yr Ymgeisydd	<p>Fforwm Ymgysylltu Mordwyo</p> <p>O ran rheoli traffig llongau alltraeth a chydfodoli â gweithgareddau alltraeth eraill, mae'r Ymgeisydd yn datgan ei fod wedi ymrwymo i barhau â'r Fforwm Ymgysylltu Mordwyo (MNEF) yn ystod y cam ôl-ganiatâd [PDA-008], cyf RR-019.5 a [REP2-078], cyf REP1-072.8.</p> <p>Mae Tabl 7.17 [APP-059] yn datgan bod hyn yn cael ei sicrhau trwy'r Atodlen Lliniaru a Monitro [REP2-030], ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn wir.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ble mae'r ymrwymiad hwn yn cael ei sicrhau? • Beth yw'r cylch gwaith ar gyfer yr MNEF yn ystod y cam ôl-ganiatâd? Er enghraifft, beth fyddai ei rôl a'i ddiben, pa mor rheolaidd y byddai'r fforwm yn cyfarfod, a fyddai'r aelodaeth yn newid mewn unrhyw ffordd ac a ydych yn disgwyl rôl i'r MNEF yn ystod camau adeiladu a gweithredol y prosiect? • O ystyried cyffredinrwydd gweithgareddau alltraeth eraill yng nghyffiniau'r ardaloedd arâe a cheblau allforio arfaethedig, a oes angen i fanylion yr ymrwymiad hwn gael eu hamlinellu'n fwy eglur yn y dDCO neu gynllun rheoli wedi'i sicrhau?
Q1.156	Yr Ymgeisydd	<p>Cydlynu ag IPau Ørsted</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut ydych chi'n ymateb i gyflwyniadau IPau Ørsted bod angen ymgysylltu ychwanegol y tu hwnt i'r MNEF wrth symud ymlaen [REP2-104], adran 3?
Q1.157	IPau Ørsted	<p>Cydlynu ag IPau Ørsted</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn eich cyflwyniadau bod angen ymgysylltu ychwanegol y tu hwnt i'r MNEF wrth symud ymlaen [REP2-104], beth ydych chi'n ei geisio o ran ymrwymiad gan yr Ymgeisydd ar ymgysylltu a chydlynu â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'ch pryderon ynglŷn â thraffig llongau yn ystod y camau adeiladu a gweithredol? • A hoffech chi wneud sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i'ch Sylw Ysgrifenedig [REP2-078], cyf REP1-072.7-8?
Q1.158	Yr Ymgeisydd	Effeithiau cronol gan gynnwys Mooir Vannin

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • A fu unrhyw newid i'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ehangder daearyddol ac effeithiau amgylcheddol tebygol Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin arfaethedig ers cyflwyno cais Mona DCO? • Os felly, a oes angen unrhyw ddiweddariad i'r asesiad o effeithiau cronol ar gyfer prosiect Mona, yn enwedig mewn perthynas â risg gwrthdrawiadau a chynghreiriaid?
Q1.15.9	Mooir Vannin Offshore Wind Farm Limited (MVOWFL)	<p>Effeithiau cronol gyda Mooir Vannin</p> <p>Ymatebodd yr Ymgeisydd i'ch Sylw Perthnasol yn [PDA-008], Tabl 2.45, ID RR-045.7.</p> <ul style="list-style-type: none"> • I ba raddau ydych chi'n cytuno â methodoleg a chasgliadau asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar forgludiant a mordwyo, fel yr amlinellir yn [APP-059]?
Q1.15.10	Mooir Vannin Offshore Wind Farm Limited (MVOWFL)	<p>Effeithiau cronol gan gynnwys Mooir Vannin</p> <p>Mae'r Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig yn dod i'r casgliad bod potensial ar gyfer effeithiau andwyol cymedrol (sy'n arwyddocaol yn nhermau EIA) o ran gwrthdrawiadau ac ymlyniad pan ystyrir arae Mona gyda'i gilydd gyda chynlluniau a phrosiectau eraill [APP-059]. Priodolir hyn i risgiau yn codi yn y llwybr 2.5 milltir forol o led a fyddai'n cael ei ffurfio rhwng arae alltraeth arfaethedig Morgan a Fferm Wynt Alltraeth Mooir Vannin arfaethedig. Nid yw'r Ymgeisydd yn cynnig unrhyw liniaru pellach ar yr effeithiau hyn oherwydd ei fod yn cymryd y byddant yn cael eu hystyried trwy'r asesiadau cronol sydd i'w cynnal ar gyfer y prosiectau eraill, yn fwyaf nodedig Mooir Vannin.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch roi unrhyw ddiweddariad ar yr asesiad risg mordwyo cronol yr ydych yn ei gynnal mewn perthynas â Mooir Vannin ac unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol neu liniarol sydd wedi'u mewnosod y gellir eu mabwysiadu mewn perthynas ag effeithiau risg gwrthdrawiadau a chynghreiriaid?
Q1.15.11	Yr Ymgeisydd, MCA	<p>Risg o gynghreiriad a gwrthdrawiadau cronus</p> <p>Mae REP1-029 yn cofnodi cytundeb bod "perygion gwrthdaro a gwrthdaro rhwng Ardal Morgan Arrau a Ffin Cwmpasu Mooir Vannin yn annerbyniol yn seiliedig ar ganfyddiadau Asesiad Risg Mordwyo Rhanbarthol Cronus Atodiad D (APP-098)" (cyf MCA-SAN.28). Mae hyn yn adlewyrchu casgliadau'r Datganiad Amgylcheddol, fel y'u cofnodwyd yn [APP-059].</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> Beth yw goblygiadau'r canfyddiad hwn yng ngoleuni paragraff 2.8.331 o NPS EN-3?
Q1.15.12	Yr Ymgeisydd, MCA	<p>Eithriadau i'r rhagdybiaeth Blaenoriaeth Genedlaethol Feirniadol</p> <p>Mae'r Datganiad Cynllunio [APP-186] yn ystyried yr eithriadau i ragdybiaeth y CNP a nodir yn NPS EN-1 para 4.1.7 ond daw i'r casgliad "nad oes yr un o'r eithriadau uchod yn berthnasol i Brosiect Gwynt Alltraeth Mona".</p> <p>I'r Ymgeisydd, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ai'ch safbwynt chi yw na fyddai'r effeithiau sylweddol tebygol ar fordwyo a llongau o'r prosiect yn unig ac a nodir yn gronnol yn [APP-059] (gan gynnwys effeithiau gwrthdrawiadau cronnol a risg o gynghreiriad) yn peri risg annerbyniol i, neu ymyrraeth ag, iechyd dynol a diogelwch y cyhoedd? Os felly, rhowch gyfiawnhad pellach dros y sefyllfa hon. Ai eich safbwynt chi yw na fyddai'r effeithiau sylweddol tebygol ar fordwyo a llongau o'r prosiect yn unig ac a nodir yn gronnol yn [APP-059] (gan gynnwys effeithiau risg gwrthdrawiadau cronnol a chynghreiriad) yn peri risg annerbyniol, neu ymyrraeth annerbyniol ar y môr i fordwyo? Os felly, rhowch gyfiawnhad pellach dros y sefyllfa hon. <p>I'r MCA:</p> <ul style="list-style-type: none"> A hoffech wneud sylw ar y materion hyn?
1.16 Sŵn a Dirgryniad		
Q1.16.1	Michael a Sally Leach, Mr a Mrs JT Owen	<p>Sŵn a Dirgryniad</p> <p>Yn ei Ymateb i Sylwadau Perthnasol ([PDA-008], tudalennau 242, 243, 255 a 256), cyfeiriodd yr Ymgeisydd at ei asesiad o sŵn a dirgryniad ac amlygodd ei gynigion lliniaru cysylltiedig. Ategwyd hyn gan gyflwyno Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Adeiladu Amlinellol diwygiedig [REP2-044]. Os ydych o'r farn bod yr asesiad a'r mesurau lliniaru'n annigonol, a allwch chi gynghori sut mae angen eu diwygio neu eu hategu?</p>
Q1.16.2	Yr Ymgeisydd	Glascoed Road

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A allwch chi naill ai wneud sylwadau neu gyfeirio at ble rydych wedi ystyried effaith bosibl sŵn traffig adeiladu, yn unigol ac ar y cyd, ar breswylwyr ar hyd Glascoed Road?
Q1.163	DCC CCBC	<p>Asesu a monitro sŵn</p> <p>Mynegodd IPau bryderon [REP1-086] ynglŷn â'r asesiad o effaith sŵn, gan gynnwys lefelau sŵn sylfaenol, tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth fodelu, trothwyon cymwys a maint canlyniadol yr effaith debygol. O ystyried yr WR hwnnw ac ymateb yr Ymgeisydd yn ([REP2-078], tudalennau 115-136):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gan roi rhesymau ar gyfer eich ymateb, a ydych chi'n rhannu unrhyw rai o'u hamheuron? • Beth yw'ch barn am eu safbwynt ar fonitro sŵn gorfodol ac ymateb yr Ymgeisydd? • A ydych chi'n cytuno ag ymatebion yr Ymgeisydd mewn perthynas ag: effeithiau sŵn cydamserol a chronnol; a'r honiad bod yr effaith bosibl ar eiddo IPau wedi cael ei bychanu?
Q1.164	DCC CCBC	<p>Cyd-destun polisi</p> <p>Aeth yr Ymgeisydd i'r afael â'ch pwynt ynglŷn â'r Cynllun Sŵn a Seinwedd i Gymru 2023-2028 yn ei ymateb i'ch LIR ([REP2-085], REP1-049.86). Gan roi rhesymau dros eich ateb, a ydych chi'n fodlon ar ei safbwynt ynglŷn â'r mater?</p>
Q1.165	MR a KM Hussey	<p>Dirgryniad</p> <p>A yw darpariaethau'r Cynllun Sŵn a Dirgryniad Adeiladu Amlinellol [REP2-044] yn mynd i'r afael â'ch pryderon ynglŷn â dirgryniad [REP1-086]? Os na, esboniwch eich casgliad.</p>
1.17 Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol Alltraeth		
Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig		
Q1.17.1	Yr Ymgeisydd	<p>Nodweddion Ecolegol Pwysig Rhynglanw</p> <p>Gan na chynhaliwyd asesiad o golli cynefin/tarfu ar Nodweddion Ecolegol Pwysig (IEFau) rhynglanw, a allwch chi gadarnhau sut byddai dim gweithgareddau cynnal a chadw yn y parth rhynglanw yn cael ei sicrhau (yn ystod y cam gweithredol).</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.172	CNC (C) JNCC NWWT	Arwyddocâd effeithiau Mae Tabl 2.36 yr ES Pennod 2 (Cyfrol 1) Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig [APP-054] yn cyflwyno crynodeb o'r effeithiau posibl, y nodweddion ecolegol pwysig cysylltiedig, ac arwyddocâd effeithiau. <ul style="list-style-type: none">i) Os ydych yn anghytuno ag unrhyw agwedd a restrwyd, gan gynnwys asesiad yr Ymgeisydd o arwyddocâd effeithiau, a allwch chi ei hamlygu a rhoi tystiolaeth i gyfiawnhau eich barn.ii) Os ydych o'r farn bod unrhyw effaith yn arwyddocaol o ran EIA, a allwch chi ei hamlygu a chynghori ynghylch unrhyw fesurau lliniaru posibl a realistig er mwyn atal effeithiau gweddilliol rhag bod yn arwyddocaol o ran EIA.
Q1.173	CNC (C) JNCC NWWT	Effeithiau cronol Mae Tabl 2.37 yr ES Pennod 2 (Cyfrol 1) Ecoleg islanw a rhynglanw fenthig [APP-054] yn cyflwyno crynodeb o'r effeithiau cronol posibl, y nodweddion ecolegol pwysig cysylltiedig, ac arwyddocâd effeithiau. <ul style="list-style-type: none">i) Os ydych yn anghytuno ag unrhyw agwedd a restrwyd, gan gynnwys asesiad yr Ymgeisydd o arwyddocâd effeithiau, a allwch chi ei hamlygu a rhoi tystiolaeth i gyfiawnhau eich barn.ii) Os ydych o'r farn bod unrhyw effaith yn arwyddocaol o ran EIA, a allwch chi ei hamlygu a chynghori ynghylch unrhyw fesurau lliniaru posibl a realistig er mwyn atal effeithiau gweddilliol rhag bod yn arwyddocaol o ran EIA.
Q1.174	JNCC	Asesiad o Effaith Benthig Morol Os ydych yn anghytuno ag asesiad o effaith benthig morol yr Ymgeisydd, a allwch chi grynhoi eich safbwynt. A allwch chi hefyd ddarparu gwybodaeth a chyfeirio at unrhyw ddeddfwriaeth, gan gynnwys prosiectau perthnasol, i gyfiawnhau'r angen am wahaniaethu rhwng ardal y glannau (o fewn 12nm) a'r ardal alltraeth (y tu hwnt i 12nm) i asesu effeithiau benthig morol (JNCC RR-033.3 ymateb i sylw perthnasol [REP2-097]).
Q1.175	Yr Ymgeisydd	Cyflwyniadau'r JNCC erbyn Dyddiad Cau 2

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A allwch chi grynhoi eich ymagwedd at ddatrys sylwadau a phryderon y JNCC ynglŷn ag ecoleg fenthig a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-097].
Q1.17.6	Yr Ymgeisydd	NPS EN-3 A all yr Ymgeisydd gynghori sut mae wedi bodloni paragraff 2.8.123, sy'n datgan "Dylai'r ymgeisydd ddangos cydymffurfedd â mesurau lliniaru a amlygwyd gan Ystad y Goron mewn unrhyw HRA lefel cynllun a gynhyrchir yn rhan o'i rownd brydlesu".
Q1.17.7	Yr Ymgeisydd	Datganiad Dull Adeiladu Glanfa Amlinelloi [REP2-066] Mae paragraff 1.10.6.5 yn datgan bod yr ardal o farian â llystyfiant sy'n gysylltiedig â Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Traeth Pensarn wedi cael ei dileu o derfynau gorchymyn y DCO. Fodd bynnag, mae eich ymateb i RRau RR-009.11 [PDA-008] yn datgan bod rhai ardaloedd o'r SoDdGA wedi'u cynnwys o hyd yn yr Ardal Ddatblygu ar y Tir i ganiatáu mynediad i'r traeth. A allwch chi egluro a disgrifio unrhyw fesurau y gellid eu sefydlu i amlinellu a gwarchod ardaloedd o SoDdGA Traeth Pensarn sydd wedi'u cynnwys yn Nherfynau'r Gorchymyn.
Mamaliaid Môr		
Q1.17.8	Yr Ymgeisydd	A all yr Ymgeisydd grynhoi ei ymagwedd at ddatrys pryderon CNC (C) a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-099], sef nad yw wedi cyfrif nifer yr anifeiliaid y byddai sŵn llongau'n tarfu arnynt. A all yr Ymgeisydd ymgymryd ag un o'r ddwy ymagwedd amgen a geisiwyd gan CNC(C).
Q1.17.9	Yr Ymgeisydd JNCC CNC(C)	Pe byddai senario 1 yn cynnwys eithrio clirio UXO o'r DCO a'r Drwydded Forol Dybiedig, a bod senario 2 yn cynnwys clirio UXO wedi'i gyfyngu i wefrau clirio lefel isel yn unig; a all y partion gynghori a fyddent yn cefnogi'r naill ymagwedd neu'r llall ai peidio, gan roi rhesymau.
Q1.17.10	Yr Ymgeisydd	A all yr Ymgeisydd grynhoi ei ymagwedd at ddatrys sylwadau a phryderon y JNCC ynglŷn â mamaliaid môr a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-097]

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Adareg	
Q1.17.11	Yr Ymgeisydd	A all yr Ymgeisydd grynhai ei ymagwedd at ddatrys pryderon CNC (C) ynglŷn â'i Aseiad Adareg Alltraeth o SoDdGA Pen y Gogarth [REP1-037] a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-099].
Q1.17.12	Yr Ymgeisydd	A all yr Ymgeisydd grynhai ei ymagwedd at ddatrys sylwadau a phryderon y JNCC ynglŷn ag adareg a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 2 [REP2-097]. Sylwer: Mae'r ExA yn ystyried cyflwyniadau Dyddiad Cau 2, ymatebion i'w lythyr R17 (dyddiedig 15 Awst 2024) ac yn aros am gyflwyniadau Dyddiad Cau 4, ac mae'n debygol y bydd cwestiynau ychwanegol yn cael eu gofyn ynglŷn ag adareg forol yn ystod yr Archwiliad.
Q1.17.13	JNCC, CNC(C)	A ydych yn fodlon bod yr arolowg safle digidol yn adlewyrchu nodweddu sylfaenol Adar Drycin Manaw. Os ddim, a fedrwch cynnig tystiolath i cyfiawnhau eich safbwynt.
Q1.17.14	JNCC, CNC(C)	A ydych yn fodlon gyda'r assesiad gwrthdrawiad risg ar Manx Sherwater a'r canlyniad. Os ddim, a fedrwch cynnig tystiolath i cyfiawnhau eich safbwynt.
Q1.17.15	Yr Ymgeisydd RSPB Cymru	A fedrwch egluro sut mae'r cais yn ystyried gwytnwch ecosystemau ac potensial effaith adareg ar: <ul style="list-style-type: none"> • dadleoliad o ardaloedd fforio; • gwariant egni rhywogaeth; • effaith ar fforio pysgod; a • haenu cefnfor (môr lwerddon) A fedrith RSPB Cymru cynning tystiolaeth sydd yn cyfeirio at y pedwar pwyntiau bwled uchod i arddangos bod yr asesiad heb di ystyried yn llawn effeithiau anuniongyrchol ecosystem ac hefyd os buasai yn newid unrhyw canlyniad asesiad arwyddocâd yr effeithiau.
Q1.17.16	Yr Ymgeisydd	Mae'r statws asesiad diweddara ar adar mor bridio gwledydd prydain a chyhoeddwyd ar 2 o Fedi 2024 wedi ychwanegu Môr-Wennol y Gogledd, Pedryn Drycin Leach, Gwylan y Gweunydd, Gwylan Gefnddu Fwyaf a Sgiwen Fawr I Rhester coch DU. A fedrith yr Ymgeisydd cynghori os yw hyn yn affeithio yr Aseiad Effaith Amgylcheddol/ Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
1.18	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol ar y Tir	
Q1.18.1	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] Mae paragraffau 1.6.1.3-1.6.1.12 yn amlygu rolau technegol a'r ymagwedd reoli eilaidd sy'n gysylltiedig â'r cam adeiladu. A all yr Ymgeisydd gynghori ynglŷn â beth fyddai'r ymagwedd reoli a'r rolau technegol ar gyfer y cam paratoi ar y safle.
Q1.18.2	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] Mae'r egwyddorion dylunio ar gyfer gwella bioamrywiaeth yn cyfeirio at reoli a gwella gwerth cadwraeth natur Ardal Ddatblygu ar y Tir Mona. A allwch chi grynhoi pa feini prawf a ddefnyddiwyd i ddangos bod coetir, pyllau, glaswelltir a gwrychoedd newydd yn gwella'r ardal cadwraeth natur. Er enghraifft, a ddefnyddiwyd unrhyw gymarebau penodol i ddangos bod cynefinoedd wedi cael eu gwella ac a gytunwyd ar unrhyw un o'r cymarebau hyn gyda DCC, CCBC, a CNC(C)?
Q1.18.3	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] A allwch chi gynghori ynglŷn â sut byddai mesurau digolledu ar gyfer cynefin a gollir yn barhaol trwy blannu llystyfiant newydd (gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol addas) i ddarparu cynefin newydd â gwerth ecolegol cyfwerth o leiaf, yn gwella gwerth cadwraeth natur ardal y Datblygiad Arfaethedig?
Q1.18.4	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] A all yr Ymgeisydd ddarparu tabl sy'n rhestru'r holl Gynefinoedd Pwysig lawn a fyddai'n cael eu colli, yn barhaol a dros dro, ochr yn ochr â chyfanswm yr ardal liniaru arfaethedig ar gyfer pob un?
Q1.18.5	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] A allwch chi gynghori ynglŷn â sut byddai mesurau a ddangosir ar leiniau 15 ac 16 ar Ffigur 1.4 y cynllun strategaeth tirwedd ac ecoleg dangosol yn effeithio ar Fferm Solar Llanelwy a ddangosir ar Ffigur 4.2 ym Mhennod 4: Adareg ar y tir a rhynglanw [APP-067].
Q1.18.6	Yr Ymgeisydd	Ar y tir - OLEMP [REP2-034] Mae paragraff 1.8.1.4 yn ymwneud ag ymrwymïadau sy'n berthnasol i goetir o fewn ardal y Datblygiad Arfaethedig. A allwch chi gadarnhau:

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> i) pryd y byddai plannu'n cael ei wneud a ph'un a fyddai hyn yn digwydd cyn colli cynefin ac, os na, pam; ii) y coetiroedd lled-naturiol hynafol a amlygwyd i'w hystyn a ph'un a fyddai angen mesur i fynd i'r afael â ffrwythlondeb pridd a rheoli chwyn ar dir cyfagos; iii) p'un a fyddai angen cyfnod estynedig o fonitro a chynnal a chadw ar ardaloedd o goetir, gan gynnwys coetiroedd lled-naturiol hynafol, i adlewyrchu adfywio naturiol a ph'un a fyddai angen unrhyw fesurau yn ystod y cam datgomisiynu; a iv) ph'un a gynhaliwyd unrhyw asesiad o gyflenwyr planhigfeydd a'u gallu i ddarparu hadau a phlanhigion lleol.
Q1.18.7	Yr Ymgeisydd	<p>OLEMP [REP2-034]</p> <p>Mae paragraff 1.8.1.5 yn ymwneud ag ymrwymadau sy'n berthnasol i bob cynefin. A allwch chi gadarnhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) eich ymagwedd at fylchau dros dro rhwng gwrychoedd yn ystod paratoi'r safle, ac yn ystod adeiladu; ii) o ran tir sydd i'w ddychwelyd i'r tiffeddiannwr, sut byddai gorchudd tir da (sy'n gynefin addas i GCN ac ymlusgiaid chwilota am fwyd) yn cael ei sicrhau; ac iii) o ran tir sydd i'w ddychwelyd i'r tiffeddiannwr, sut byddai system bori llai dwys (i greu porfa hirach a mwy twmpathog) yn cael ei sicrhau.
Q1.18.8	DCC, CCBC, CNC (C) RSPB Cymru NWWT	<p>OLEMP [REP2-034]</p> <p>A ydych chi'n fodlon ar ymagwedd ar y tir/glanfa'r Ymgeisydd at:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) gynefinoedd – lliniaru, rheoli, a monitro; a ii) rhywogaethau a warchodir – lliniaru, rheoli, a monitro. <p>Os na, a allwch chi roi rhesymau gyda thystiolaeth ategol i gyfiawnhau eich safbwynt.</p>
Q1.18.9	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034]

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A all yr Ymgeisydd ddisgrifio ei ymagwedd at safleoedd clwydo amgen uniongyrchol lle nad oes modd gosod blychau ystlumod concrit pren sy'n para'n hir, a ph'un a fyddai'r ymagwedd hon yn cael ei chynnal cyn paratoi'r safle yn lle cyn adeiladu?
Q1.18.10	Yr Ymgeisydd	OLEMP [[REP2-034] O ran ardaloedd o gynefinoedd newydd a blannwyd, mae'r OLEMP yn cyfeirio at gyfnod cynnal a chadw o bum mlynedd. A all yr Ymgeisydd gadarnhau a yw'r pum mlynedd yn gyfnod treigl, h.y. os bydd ardal newydd wedi'i phlannu yn methu ym mlwyddyn pedwar, a fyddai hyn yn flwyddyn un mewn gwirionedd, gyda chyfnod cynnal a chadw arall o bum mlynedd i ddilyn?
Q1.18.11	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] A all yr Ymgeisydd roi tystiolaeth ychwanegol i gyfiawnhau pam nad yw'n credu bod angen cyfnod hwy na phum mlynedd o gynnal a chadw ar gyfer ardal o goetir wedi'i blannu?
Q1.18.12	Yr Ymgeisydd	OLEMP [REP2-034] Mae'r OLEMP yn cyfeirio at ddefnydd priodol o oleuadau artiffisial. A allwch chi esbonio ble a sut yr ystyriwyd effeithiau posibl ffynonellau golau artiffisial yn ystod paratoi ac adeiladu'r safle, gweithrediadau, a datgomisiynu ar gyfer dyfrgwn a moch daear?
Q1.18.13	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] Mae Tabl 3.22 yn datgan bod y prosiect wedi cael ei ddylunio i osgoi ardaloedd o goetir hynafol. Byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod llain glustogi 15 m o leiaf yn cael ei chadw rhwng coetir hynafol ac ardaloedd adeiladu. Fodd bynnag, mae'r golofn gyfiawnhad yn datgan y byddai'n cyfyngu ar weithgarwch aflonyddol ar ymylon coetir hynafol. A all yr Ymgeisydd egluro a fyddai'r mesurau sydd i'w rhoi ar waith yn osgoi aflonyddu, neu'n cyfyngu ar aflonyddu, ar ymylon coetir hynafol.
Q1.18.14	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066]

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Mae Tabl 3.23: IEFau a gynhwyswyd yn yr asesiad yn nodi bod gan goetir hynafol werth sirol. Mae Tabl 3.17: Crynodeb o Nodweddion Ecolegol Pwysig yn nodi bod gan goetir hynafol werth sirol. A all yr Ymgeisydd esbonio'r rheswm dros y ddau werth gwahanol?
Q1.18.15	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] Mae Tabl 3.23: IEFau a gynhwyswyd yn yr asesiad yn nodi bod gan wrychoedd werth cenedlaethol. Mae Tabl 3.17: Crynodeb o Nodweddion Ecolegol Pwysig yn nodi bod gan wrychoedd werth sirol. A all yr Ymgeisydd esbonio'r rheswm dros y ddau werth gwahanol?
Q1.18.16	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] Mae Tabl 3.23: IEFau a gynhwyswyd yn yr asesiad yn nodi bod gan Fadfallod Dŵr Cribog werth cenedlaethol. Mae Tabl 3.17: Crynodeb o Nodweddion Ecolegol Pwysig yn nodi bod gan Fadfallod Dŵr Cribog werth sirol. A all yr Ymgeisydd esbonio'r rheswm dros y ddau werth gwahanol?
Q1.18.17	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] Mae Tabl 3.23: IEFau a gynhwyswyd yn yr asesiad yn nodi bod gan infertebratau daearol werth rhanbarthol. Mae Tabl 3.17: Crynodeb o Nodweddion Ecolegol Pwysig yn nodi bod gan infertebratau daearol werth lleol. A all yr Ymgeisydd esbonio'r rheswm dros y ddau werth gwahanol?
Q1.18.18	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] Mae paragraff 3.6.2.9 yn rhestru graddfeydd daearyddol ond nid yw'n cyfeirio at ranbarth. A allwch chi gynghori ynghylch gwerth rhanbarthol?
Q1.18.19	Yr Ymgeisydd	Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] A all yr Ymgeisydd gynghori ynglŷn â sut mae wedi ystyried effeithiau allyriadau Peiriannau Symudol Nad Ydynt ar gyfer y Ffordd (NRMM) ar dderbynyddion ecolegol ar gyfer y prosiect ar ei ben ei hun ac ar y cyd â phrosiectau eraill?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.18.20	Yr Ymgeisydd	<p>Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066]</p> <p>Datganodd Tabl 3.9 fod effaith colli cynefin dros dro ac yn barhaol ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir yn ystod gweithrediadau a chynnal a chadw Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona wedi cael ei hepgor. Cytunwyd ar hyn ym Marn Gwmpasu'r Arolygiaeth Gynllunio.</p> <p>Mae'r Egwyddorion Dylunio [APP-189] yn amlygu mai cyfanswm y tir sy'n ofynnol yn barhaol ar gyfer Is-orsaf ar y Tir Mona hyd at y ffens ar hyd y terfyn yw 65,000 m2. Ar gyfer safle'r is-orsaf ar y tir ac yn ystod gweithredu, a all yr Ymgeisydd grynhoi:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) effeithiau colli'r tir hwn yn barhaol ar fioamrywiaeth, coridorau bywyd gwyllt a darnio; ii) pa fesurau a ymgorfforwyd i warchod a gwella bioamrywiaeth; a iii) sut byddai cadernid ecosystemau mewn cyflwr gwell yn lleoliad yr is-orsaf ar y tir.
Q1.18.21	CCBC	<p>Iechyd Anifeiliaid</p> <p>Yn eich RR [RR-009], rydych yn dweud bod angen asesu effeithiau posibl ymbelydredd gwres ar iechyd anifeiliaid. A yw'ch pryder wedi'i gyfyngu i dda byw? Os na, esboniwch at beth yr oeddech yn cyfeirio.</p>
Q1.18.22	Yr Ymgeisydd	<p>Iechyd Anifeiliaid</p> <p>Yn dilyn eich ymateb i'r LIR ([REP2-085], REP1-049.48), a all yr Ymgeisydd esbonio sut gall y paramedr sensitifrwydd derbynnydd [yn APP-078] gael ei gymhwyso i iechyd anifeiliaid.</p>
Q1.18.23	Yr Ymgeisydd	<p>Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd</p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu tabl sy'n rhestru cynefinoedd megis coed, coed hynafol, coed cyn-filwr, coetiroedd, a gwrychoedd, a nodi cyfanswm y meintiau sy'n ymwneud â hyd/nifer/arwynebedd ar gyfer colled dros dro, colled barhaol, amnewid a gwella.</p>
Q1.18.24	Yr Ymgeisydd	<p>Ymateb yr Ymgeisydd i'r LIR</p> <p>Yn eich ymateb i REP1-049.110 [REP2-085], fe gadarnhaoch eich bod wedi comisiynu adroddiad dichonoldeb amlinellol sydd wedi asesu addasrwydd technegau di-ffos ar gyfer y dril o dan Goed Castell Gwrych. A all yr Ymgeisydd gynghori a fyddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Archwiliad erbyn Dyddiad Cau 3 ac, os na, esbonio pam.</p>

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.18.25	Yr Ymgeisydd	<p>Ymateb yr Ymgeisydd i Lywodraeth Cymru</p> <p>Yn eich ymateb i Sylw Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, cyfeirnod REP1-052.14 [REP2-079], rydych yn datgan y gwnaed pob ymdrech i gollu cyn lleied o goed hynod â phosibl. Fodd bynnag, mae paragraff 3.9.2.26 maint yr effaith, Pennod 3 (Cyfrol 3) Ecoleg ar y tir [APP-066] yn datgan "...ni fydd unrhyw goed hynod yn cael eu colli...". A allwch chi egluro p'un a fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at gollu unrhyw goed hynod.</p>
1.19 Seilwaith a Gweithgareddau Alltraeth Eraill		
Q1.19.1	Yr Ymgeisydd	<p>Ôl-ffeithiau posibl</p> <p>Mae'r ExA yn nodi sail resymegol yr Ymgeisydd dros hepgor ôl-ffeithiau o'i asesiad o effeithiau ar ddefnyddwyr eraill y môr [APP-062] [PDA-008] [REP2-078]. Fodd bynnag, mae IPau Ørsted [REP1-072] [REP2-104] yn honni y dylai'r Ymgeisydd asesu effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar yr ynni a gynhrychir gan ddatblygiadau eraill yn Nwyrain Môr Iwerddon, a darparu mesurau lliniaru addas os oes angen. Codir y mater hwn gan Scottish Power Renewables (WODS) Ltd (SPR WODS) [RR-074] hefyd. Mae Tabl 10.10 [APP-062] yn dangos bod yr holl brosiectau gweithredol a gynrychiolir gan IPau Ørsted ac SPR WODS dros 30km oddi wrth ardal arâe arfaethedig Mona, ond mae'n amlygu prosiectau ynni gwynt alltraeth eraill sy'n weithredol, sydd â chaniatâd ac sydd yn yr arfaeth a fyddai'n agosach.</p> <ul style="list-style-type: none"> O ystyried darpariaethau paragraffau 2.8.197-198 NPS EN-3 ac amgylchiadau penodol yr achos hwn, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gynnal asesiad o ôl-ffeithiau posibl ar ffermydd gwynt alltraeth eraill sy'n weithredol ac sydd â chaniatâd yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig. Erbyn Dyddiad Cau 3, a all yr Ymgeisydd nodi amserlen ar gyfer cwblhau a chyflwyno'r asesiad hwn i'r Archwiliad, y mae'n rhaid ei wneud erbyn Dyddiad Cau 6 ar yr hwyraf (ac yn gynharach os oes modd) er mwyn rhoi cyfle i IPau eraill wneud sylwadau ar y canfyddiadau.
Q1.19.2	Yr Ymgeisydd	<p>Ôl-ffeithiau posibl</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymatebwch i gyflwyniadau gan IPau Ørsted [REP1-072] nad yw ystyried yr effaith bosibl ar yr ynni a gynhrychir gan ffermydd gwynt alltraeth eraill sy'n weithredol yn fater economaidd yn unig

ExQ1: 13 Medi 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>ond yn fater dylunio da hefyd (er enghraifft, mewn perthynas â pharagraff 2.5.2 NPS EN-3) a'i fod yn berthnasol i ystyried budd y Datblygiad Arfaethedig o ran y newid yn yr hinsawdd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwch gopi o astudiaeth Frazer-Nash 2023 y cyfeirir ato yn Adran 10.5 [APP-062], [PDA-008] a [REP2-078].
Q1.193	<p>Barrow Offshore Wind Limited Burbo Extension Limited Walney Extension Limited Morecambe Wind Limited Walney (UK) Offshore Windfarms Limited Ørsted Burbo (UK) Limited ("IPau Ørsted gyda'i gilydd") a Scottish Power Renewables (WODS) Ltd</p>	<p>Ôl-ffeithiau posibl</p> <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n cytuno bod Tabl 10.10 [APP-062] yn adlewyrchu'r pellteroedd bras rhwng ardal arâe arfaethedig Mona a'r ffermydd gwynt gweithredol rydych chi'n eu cynrychioli yn gywir? • Gan nodi bod yr holl ffermydd gwynt gweithredol rydych chi'n eu cynrychioli o leiaf 30km oddi wrth ardal arâe arfaethedig Mona, sut ydych yn ymateb i ddatganiad yr Ymgeisydd bod ôl-ffeithiau, yn seiliedig ar ganfyddiadau astudiaeth Frazer-Nash 2023, yn mynd yn "<i>ddiflanedig o fach</i>" pan fydd mwy na 20km rhwng ffermydd? • Ydych chi'n dymuno darparu unrhyw dystiolaeth o ôl-ffeithiau perthnasol sy'n amlwg ar bellter o 30km neu fwy rhwng ffermydd? • Yn seiliedig ar y modelu mewnol y cyfeirir ato ym mharagraff 1.18 [REP1-072], a oes gan IPau Ørsted bryderon ynglŷn â'r holl brosiectau gweithredol maen nhw'n eu cynrychioli, neu a ydynt yn honni y byddai'r effeithiau'n fwy amlwg ar gyfer prosiectau gweithredol penodol?
Q1.194	<p>IPau Ørsted Yr Ymgeisydd</p>	<p>Ôl-ffeithiau posibl – Gofyniad DCO</p> <p>Pe na byddai asesiad ôl-ffeithiau'n cael ei gynnal yn ystod yr Archwiliad, mae IPau Ørsted yn cyfeirio at Ofyniad 25 Gorchymyn Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr 2023 sy'n canolbwyntio ar y rhyngweithio â Fferm Wynt Gwastadeddau'r Rhyl yng ngoleuni ei hagosrwydd daearyddol. Mae'r ExA yn datgan yn glir y byddai angen i unrhyw Ofyniad o'r fath fodloni'r profion cyfreithiol a pholisi perthnasol a byddai'n</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>gosod cyfrifoldeb cymeradwyo cyn-adeiladu ychwanegol ar yr Ysgrifennydd Gwladol. Fel y cyfryw, dylid ei ystyried fel dewis olaf yn unig ac os oes tystiolaeth bendant i'w gefnogi.</p> <p>At sylw IPau Ørsted:</p> <ul style="list-style-type: none">• Ar ba sail yr ystyriwch y byddai cyfiawnhad i Ofyniad o'r fath yn yr achos hwn? <p>At sylw'r Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gan nodi eich safbwynt [REP2-078] y byddai Gofyniad o'r fath yn ddiangen, a ydych chi'n dymuno gwneud unrhyw gyflwyniadau ychwanegol ynglŷn â'r mater hwn?
Q1.195	Microsoft Ireland Operations Limited	<p>Cebl telathrebu tanfor arfaethedig Microsoft</p> <p>Yn dilyn [REP1-069], darparwch y manylion ychwanegol canlynol ynglŷn â'r prosiect cebl telathrebu tanfor arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none">• Pa gydsyniadau / trwyddedau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r prosiect arfaethedig?• Beth yw'r amserlenni disgwylid ar gyfer sicrhau'r cydsyniadau angenrheidiol ac adeiladu'r prosiect arfaethedig?• Pa wybodaeth gyhoeddus sy'n bodoli am y prosiect arfaethedig a'i effeithiau amgylcheddol tebygol?• A ydych chi'n dymuno gwneud sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd i'ch Sylw Ysgrifenedig, fel y'i hamlinellir yn Nhabl 2.7 [REP2-078]?
Q1.196	Yr Ymgeisydd	<p>Cebl telathrebu tanfor arfaethedig Microsoft</p> <p>Gan gyfeirio at [REP1-069]:</p> <ul style="list-style-type: none">• A yw'r prosiect arfaethedig hwn wedi cael ei gynnwys yn yr asesiad o effeithiau cronol? Os na, a oes angen ei ychwanegu at [APP-084] a'i asesu ar gyfer penodau pynciol perthnasol yr ES?• Amlinellwch unrhyw ymgysylltiad â Microsoft a gynhaliwyd neu a gynlluniwyd mewn perthynas â'r cebl telathrebu arfaethedig.• A oes angen cytundeb croesi ac agoswydd alltraeth mewn perthynas â'r cebl arfaethedig?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.19.7	Yr Ymgeisydd Morecambe Offshore Windfarm Limited	Cytundeb cydweithio neu gydfodoli Yn dilyn [RR-046] a [PDA-008] adran 2.46, a all yr Ymgeisydd a Morecambe Offshore Wind Farm Limited roi diweddariad ar eu trafodaethau ynglŷn ag effeithiau cronol posibl ac egwyddor (ac os yw'n berthnasol, swyddogaeth a ffurf) cytundeb cydweithio neu gydfodoli rhwng y prosiectau?
Q1.19.8	Menna Jones	Effeithiau posibl ar hwylio hamdden Cyflwynir asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar hwylio hamdden yn Adran 10.9.2 [APP-062]. Mae Tabl 10.16 yr un ddogfen yn amlinellu'r mesurau y cynigir eu mabwysiadu i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol posibl. Daw'r asesiad i'r casgliad y byddai effaith niweidiol fach o ganlyniad i ddadleoli gweithgareddau hamdden (gan gynnwys hwylio) o ganlyniad i'r Datblygiad Arfaethedig. <ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n dymuno gwneud sylwadau ar y canfyddiadau hyn neu wneud unrhyw gyflwyniadau ychwanegol ynglŷn â'ch diddordeb penodol yn y mater hwn?
1.20 Y Morlun ac Adnoddau Gweledol		
Q1.20.1	CNC (C)	Asesiad o'r Effaith ar y Morlun, y Dirwedd a'r Effaith Weledol (SLVIA) Yn [RR-011] , paragraff 3.1.2.5, rydych yn amlinellu bod problemau yn ymwneud â methodoleg a chyflwyno'r delweddau a'r ffigurau yn y SLVIA. <ul style="list-style-type: none"> • A allech chi ddisgrifio'r problemau hyn yn fanylach? • Rhowch enghreifftiau penodol o ddelweddau a/neu ffotograffiaeth sy'n anaddas neu heb eu cyflwyno yn unol â chanllawiau arfer gorau. • Gwnewch sylwadau ar ymateb yr Ymgeisydd a roddwyd ym mharagraff 1.2.4, [PDA-012].
Q1.20.2	CNC (C)	Maint newid Yn [REP-1-056] paragraffau 360 a 361, rydych yn disgrifio goblygiad y gymhareb rhwng uchderau'r tyrbinau a'r pellter oddi wrthynt ar gyfer uchder blaen llafn 364m – fel yr amlinellir yn Nhystiolaeth CNC <i>Adroddiad Rhif 315 CNC</i> . Mae hyn yn pennu tebygolrwydd maint y newid ac effeithiau cyffredinol.

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r penderfyniad ynghylch tebygolrwydd effeithiau a'u lefel wedi'i seilio ar y cymarebau a ddisgrifiwyd yn unig, neu a oes angen elfen o farn? • A fyddai maint y newid a'r effaith gyffredinol, fel y'u llywiwyd gan y cymarebau a ddisgrifiwyd, yn dibynnu ar nodweddion, rhwystrau, neu nodweddion tirwedd eraill hefyd?
Q1.20.3	CNC (C) Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau gweledol</p> <p>Yn [REP1-056] Atodiad B, paragraff 367, gan gyfeirio at ganllawiau o sylfaen dystiolaeth CNC, mae'n datgan "Nid yw'r arâe wedi'i lleoli 'y tu hwnt i derfyn effeithiau gweledol dibwys, yn enwedig ar gyfer yr ardal sensitifurwyd uchaf, sef Parciau Cenedlaethol/AHNEau wedi'u troshaenu ag arfordiroedd treftadaeth".</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r terfyn effeithiau gweledol dibwys ar gyfer IoANL, ENP a Thirwedd Genedlaethol CRDV, ym marn CNC? • Beth yw barn yr Ymgeisydd ynglŷn â hyn?
Q1.20.4	CNC (C)	<p>Gwybodaeth ychwanegol</p> <p>I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd yn [PDA-012] yn cyfeirio at eich pwyntiau a godwyd yn [RR-011], paragraff 3.1.2.6, ynglŷn â gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn ymateb yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR)?</p>
Q1.20.5	CNC (C)	<p>Ymateb i RRau</p> <p>I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd yn [PDA-012] yn mynd i'r afael â'ch pwyntiau a godwyd yn [RR-011], paragraff 3.1.2.7, ynglŷn â delweddau llinell wifren cronol, golygfannau perthnasol, a chynnwys Is-orsaf ar y Tir Mona, is-orsaf Awel y Môr a Datblygiadau Haen 1 eraill?</p>
Q1.20.6	CNC (C)	<p>Golygfannau'r SLVIA</p> <p>Yn [REP-1-056] paragraff 374, rydych yn datgan "Nid yw ffermydd gwynt alltraeth presennol yn weladwy o fwyafrif golygfannau'r SLVIA neu maent yn cael effaith ddibwys arnynt". A fyddai hyn yn wir o hyd ar ôl adeiladu Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr?</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.20.7	Yr Ymgeisydd	Oes Ddylunio Yn [REP1-056] paragraff 388, mae CNC yn datgan "Er bod 'oes ddylunio Prosiect Gwynt Alltraeth Mona yn debygol o fod yn 35 mlynedd' [Paragraff 1.4.1.2, APP-048], mae'n rhesymol debygol y bydd y tyrbinau'n cael eu hailbweru/amnewid o fewn cyfnod y brydles 60 mlynedd". <ul style="list-style-type: none">• A allwch chi wneud sylwadau ar debygolrwydd amnewid y tyrbinau yn ystod cyfnod y brydles 60 mlynedd?• A ystyrir bod yr effeithiau gweledol a allai ddigwydd o fewn y cyfnod hwn o ganlyniad i amnewid unrhyw dyrbin yn wrthdroadwy o hyd?
Q1.20.8	Yr Ymgeisydd	Tirweddau Dynodedig Statudol A all yr Ymgeisydd ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan CNC yn [REP1-056], adrannau 1.4 i 1.12, ynglŷn â'r SLVIA a'r asesiad o effeithiau ar nodweddion arbennig a lleoliadau tirweddau dynodedig statudol a derbynyddion o fewn y tirweddau hynny?
Q1.20.9	DCC CCBC	SVLIA Yn yr LIR [REP1-049], adran 3.3, rydych wedi darparu adolygiad o'r SLVIA, ond nid ydych wedi rhestru'r ES Pennod 8 (Cyfrol 2) ymhlith y dogfennau a adolygwyd. <ul style="list-style-type: none">• A yw'r adolygiad yn ymwneud ag elfennau alltraeth ac ar y tir y SLVIA, neu'r elfennau ar y tir yn unig?• A gynhaliwyd adolygiad o [APP-060]?• Os felly, a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr asesiad neu'r casgliadau y daethpwyd iddynt, neu ar WR CNC [REP1-056], yn ymwneud â'r asesiad o effeithiau (gan gynnwys effeithiau cronol) arâe Alltraeth Mona ar nodweddion arbennig a lleoliadau tirweddau dynodedig statudol a derbynyddion o fewn y tirweddau hynny?
Q1.20.10	CNC (C)	Mesurau gwella a gwrthbwyso Yn [REP1-056] paragraff 386, rydych yn datgan eich bod o'r farn "Byddai arâe Mona yn achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar Dirwedd Genedlaethol IoA ac ENP", ac "Os na all yr Ymgeisydd liniaru'r

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>effeithiau hyn, dylai ddarparu mesurau gwrthbwysu/gwella". Awgrymir hefyd y dylid darparu cynllun gwella cymesur ar gyfer Tirwedd Genedlaethol IoA ac ENP i wneud iawn am effeithiau niweidiol pe byddai caniatâd yn cael ei roi. A oes unrhyw fesurau neu brosiectau gwella neu wrthbwysu penodol y byddech yn eu cynnig?</p>
Q1.20.11	Yr Ymgeisydd CNC (C)	<p>Cynllun gwella tirwedd</p> <p>Mae R24 DCO Fferm Wynt Alltraeth AyM yn sicrhau cynllun gwella tirwedd a fyddai'n cynnwys mesurau i wneud iawn am yr effaith ar IoANL, ENP ac Arfordir Treftadaeth Pen y Gogarth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A fyddai gofyniad tebyg i R24 yn briodol i DCO Fferm Wynt Alltraeth Mona? • Os na, pam?
Q1.20.12	Yr Ymgeisydd CNC (C)	<p>Tirweddau Cenedlaethol</p> <p>Wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â thir mewn AHNE (sef Tirweddau Cenedlaethol bellach) neu sy'n effeithio arno, mae Adran 85 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod perthnasol i ystyried diben gwarchod neu wella harddwch naturiol yr AHNE.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A all yr Ymgeisydd esbonio pam y mae'n ystyried y gallai'r awdurdod perthnasol fod yn fodlon y byddai'r ddyletswydd a osodwyd arno'n cael ei chyflawni pe byddai caniatâd datblygu'n cael ei roi ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig? • A all CNC wneud sylwadau ar b'un a fyddai gweithredu cynllun gwella addas, fel y disgrifir uchod, yn caniatáu ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd?
Q1.20.13	Yr Ymgeisydd	<p>Lefelau Goleuadau Alltraeth</p> <p>Mae Tabl 8.18 [APP-060] yn disgrifio mesurau a gymerwyd ynglŷn â goleuadau hedfanaeth i leihau effeithiau prosiect Fferm Wynt Alltraeth Mona. Dywedir y gallai lefelau goleuadau gynyddu i 2000 Candela mewn tywydd lle mae gwelededd yn wael, ac "Mae lefelau goleuadau'n cael eu sicrhau fel Gofyniad o'r DCO Drafft". Fodd bynnag, nid yw R3 y dDCO, sy'n ymwneud â goleuadau hedfanaeth, yn nodi lefelau dwysedd goleuadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi gyfeirio at ble y nodir y lefelau dwysedd goleuadau yn y dDCO?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • Os nad ydynt wedi'u nodi, a allwch chi esbonio pam? • A yw'r lefelau goleuadau a ddisgrifir yn y SLVIA yn berthnasol i'r Platfformau Gwasanaeth Alltraeth hefyd? • A yw'r asesiad a gynhaliwyd yn [APP-060] yn tybio dwysedd mwyaf o 2000 Candela? • A yw'r golygfeydd dangosol yn y nos a ddangosir yn nelweddau'r SLVIA [APP-106], [APP-107], [APP-108], [APP-110], ac [APP-111] yn dangos y dwysedd mwyaf llachar neu ddwysedd is ar gyfer amodau mwy clir?
Q1.20.14	CNC (C)	<p>Effeithiau goleuadau ar Dirweddau Cenedlaethol</p> <p>O ran goleuadau rhybuddio hedfanaeth ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona, mae [REP1-056] paragraff 416 yn datgan, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, eich bod o'r farn "y disgwylir iddynt fod yn weladwy o arfordir gogleddol loA ac na fyddai'r effaith ar awyr dywyll yn ddibwys".</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi roi rhagor o fanylion neu wybodaeth am effeithiau'r goleuadau rhybuddio hedfanaeth ar yr awyr dywyll o fewn Tirwedd Genedlaethol loA, yn eich barn chi? • A allwch chi wneud sylwadau ar y lefelau dwysedd a nodwyd gan yr Ymgeisydd yn Nhabl 8.18 [APP-060] a sut byddai'r rhain yn effeithio ar awyr dywyll loA?
1.21 Materion economaidd-gymdeithasol		
Q1.21.1	Llywodraeth Cymru	<p>Sgiliau a chyfleoedd cadwyn gyflenwi</p> <p>A ydych chi'n fodlon ar ymateb yr Ymgeisydd i'ch cyflwyniadau mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau a'r gweithlu [REP2-079], cyf REP1-052.9; a, • datblygu cadwyn gyflenwi [REP2-079], cyf REP1-052.12? <p>Os na, pa ymrwymiad ychwanegol ydych chi'n ei geisio ar yr adeg hon o'r prosiect?</p>
Q1.21.2	Yr Ymgeisydd	<p>Y Gymraeg</p> <p>Nodir cyflwyniadau'r Ymgeisydd yn [REP2-079], cyf REP1-052.8.</p> <p>A all yr Ymgeisydd ymateb i argymhelliad Llywodraeth Cymru [REP1-051], tudalennau 5-6, bod [APP-045] yn cael ei asesu gan ymarferydd cynllunio iaith profiadol?</p>

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q121.3	Llywodraeth Cymru	Buddion cymunedol a pherchnogaeth leol Sut ydych chi'n ymateb i gyflwyniadau'r Ymgeisydd ynglŷn â sicrhau buddion cymunedol [REP2-079], cyf REP1-052.5? A yw hyn yn darparu ymrwymiad boddhaol ac, os na, pa ymrwymiad ychwanegol y gallech chi ddisgwyl ei weld ar y cam hwn?
Q121.4	Yr Ymgeisydd	Buddion cymunedol a pherchnogaeth leol Yn dilyn [REP2-079], cyf REP1-052.5, a allech chi egluro'ch safbwynt mewn perthynas â pherchnogaeth leol?
Q121.5	Yr Ymgeisydd	Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol (OSEP) Mae Adran 1.2 [APP-210] yn amlygu cyfleoedd i gydweithio ac alinio ag OSEPau ar gyfer prosiectau arfaethedig eraill sy'n cael eu hyrwyddo gan bp/EnBW. A ellir ychwanegu rhagor o fanylion gan fod y cais ar gyfer Asedau Cynhyrchu Morgan wedi cael ei gyflwyno bellach?
Q121.6	Yr Ymgeisydd	OSEP <ul style="list-style-type: none">• Gan gydnabod bod [APP-210] yn gynllun amlinellol, a oes modd iddo gynnwys ymrwymiad cryfach y bydd y mesurau a ddaw'n ymrwymïadau terfynol yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n briodol, er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun?• Ar ôl i'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth gael ei gwblhau'n derfynol, beth yw'r dulliau ar gyfer craffu ar y Cynllun ac ymgysylltu ynglŷn ag ef yn barhaus, ac a ddylai'r OSEP gynnwys ymrwymiad mwy cadarn yn hyn o beth?• Beth fyddai'n digwydd pe byddai gwerthusiad ôl-ganiatâd yn canfod nad oedd amcanion y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth yn cael eu bodloni?
Q121.7	Yr Ymgeisydd a Chyngor Sir Ynys Môn (IoACC)	OSEP Pa gynnydd a wnaed rhwng y partiön ar y materion a godwyd gan IoACC [REP1-023], cyf IoACC.SE.13, mewn perthynas â chynnwys yr OSEP [APP-210]?

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q121.8	Yr Ymgeisydd	<p>Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth</p> <p>Mae Gofyniad 19 y dDCO [REP2-004] yn darparu bod rhaid hysbysu'r awdurdodau perthnasol am Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth ar ôl ymgynghori â nhw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A all yr Ymgeisydd esbonio pam mae'r Gofyniad hwn yn ceisio hysbysu'r awdurdodau perthnasol, yn hytrach na chael cymeradwyaeth ganddynt, yn enwedig yng ngoleuni paragraff 5.13.12 NPS EN-1? • Pam mae R19 yn amodol ar ddechrau 'gwaith ar y tir', yn hytrach na dechrau'r prosiect awdurdodedig? • Er mwyn sicrwydd, a ellir dileu '<i>yn sylweddol</i>' o R19(2)?
Q121.9	DCC, CCBC, IoMG ac IoACC	<p>Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth</p> <p>A chithau'n awdurdodau perthnasol a enwyd at ddibenion R19 [REP2-004], a ydych chi'n fodlon y byddai'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth (yn dilyn ymgynghoriad â chi) yn destun hysbysu yn hytrach na chymeradwyo? Os na, awgrymwch eiriad amgen ar gyfer R19.</p>
Q121.10	Tan-y-Mynydd Trout Fishery Ltd	<p>Effeithiau posibl ar Bysgodfa Frithyll Tan-y-Mynydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • I ba raddau y mae ymateb yr Ymgeisydd [REP2-078], Tabl 2.15, i'r materion a godwyd gennych yn [REP1-080] yn mynd i'r afael â'ch pryderon? • Rhowch ddiweddariad ar drafodaethau â'r Ymgeisydd.
Q121.11	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau posibl ar Bysgodfa Frithyll Tan-y-Mynydd</p> <p>Sut ydych chi'n ymateb i gyflwyniadau gan Tan-y-Mynydd Trout Fishery Ltd [REP1-080] y dylid darparu ymgymeriad neu indemniad cyfreithiol addas i'r busnes i warchod ei fuddiannau os bydd y gwaith adeiladu arfaethedig ar y tir yn cael effaith niweidiol ar y ffynhonnell ddŵr sy'n cyflenwi'r bysgodfa?</p>
1.22	Traffig a Thrafnidiaeth	

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.221	Yr Ymgeisydd	<p>Effeithiau Cronnol</p> <p>Mae LIR y Cyngor [REP1-049] yn mynegi pryder ynghylch priodoldeb yr ardal astudio 1km ar gyfer y CEA.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi gyfiawnhau pam na chynhaliwyd asesiad ehangach, mwy strategol yn hyn o beth? • A allwch chi gyfiawnhau'r ymagwedd a ddefnyddiwyd at eithrio safleoedd o'r CEA lle nad oedd gwybodaeth ar gael yn hytrach na gwneud tybiaethau priodol?
Q1.222	DCC CCBC Llywodraeth Cymru	<p>Rheoli symudiadau HGV ac AIL</p> <p>A allwch chi gadarnhau eich bod yn fodlon ar yr ymagwedd at reoli symudiadau HGV ac AIL, fel yr amlinellir yn adrannau 1.4 ac 1.5 yr OCTMP [APP-225]?</p>
Q1.223	Llywodraeth Cymru	<p>Darpariaethau Amddiffynnol</p> <p>A ydych chi'n fodlon ar y darpariaethau amddiffynnol yn Rhan 6, Atodlen 10 y dDCO [REP2-004]? Os oes unrhyw newidiadau yr hoffech eu gwneud, darparwch eiriad amgen ac esboniwch pam yr ystyrir ei fod yn angenrheidiol.</p>
Q1.224	DCC, CCBC	<p>dDCO</p> <p>Yn yr LIR [REP1-049], rydych yn codi pryderon ynglŷn â datgymhwyso Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Gan gyfeirio at y pwerau arfaethedig yn Erthyglau 10 i 15, Rhan 3, Strydoedd y dDCO, pa ddiwygiadau, os o gwbl, ydych chi'n ystyried eu bod yn angenrheidiol a pham?</p>
Q1.225	Yr Ymgeisydd	<p>Asesiad</p> <p>Cyfeiriodd LIR y Cynghorau [REP1-049] at ddau ddatblygiad yr ymrwymwyd iddynt (46/2021/0159 PF a 40/2021/0825 PF) sydd wedi cael eu hepgor o'r Asesiad Trafnidiaeth. A allwch chi roi rhesymau dros eu hepgor?</p>
Q1.226	Yr Ymgeisydd	Porthladd Adeiladu

ExQ1: 13 Medi 2024**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A allwch chi roi diweddariad ar y porthladd ar gyfer unrhyw ddanfoniadau i'r is-orsaf neu ar gyfer y gwaith alltraeth? Os oes porthladd wedi'i amlygu bellach, a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r Aseiad Trafnidiaeth neu'r OCTMP?

ExQ1: 13 Medi 2024

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Dyddiad Cau 3: 30 Medi 2024